# Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**Awdur: Sian Howys, Porth Cynnal**
**Gwasanaeth Cyd-drefnu: Alun Williams, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd**

**Dyddiad cymeradwyo gan y Cabinet: 07/07/2020**
**Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus: 31/07/2020**
**Asesiad Effaith Integredig: Oes**
**Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2020**
**Dyddiad adolygu: 31/03/2022**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Nod | 3 |
| Cefndir | 3-6 |
| Astudiaeth achos 1: Caledi ariannol ac iechyd meddwl | 7 |
| Astudiaeth achos 2: Colli incwm a mynediad at gymorth | 7 |
| Ffeithlun: Effaith y coronafeirws ar Geredigion – yr hyn yr ydym yn ei wybod ym mis Mai 2020 | 8 |
| Effaith y coronafeirws (COVID-19): 'Yr hyn yr ydym yn ei wybod' ym mis Mai 2020 | 9-22 |
| Ffeithlun: Edrych tua'r dyfodol – pryderon y cyhoedd ledled Cymru | 23 |
| Gweledigaeth | 24-25 |
| Sut y byddwn yn rhoi'r weledigaeth ar waith – y prif amcanion | 25 |
| Fframwaith gweithredu | 26 |
| Map Ffordd Nawr – Nesaf – Nes Ymlaen | 27 |
| Dull gweithredu | 28 |
| Cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau eraill | 28 |
| Asesiad Effaith Integredig | 28-29 |
| Adnoddau | 29 |
| Cydnabyddiaeth | 29 |
| Cyfeiriadau | 30-31 |

# Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi

## Nod

Gan fod mwy o risg y gallai dinasyddion Ceredigion wynebu caledi yn sgil goblygiadau economaidd a chymdeithasol pellgyrhaeddol COVID-19, mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu llunio ymateb strategol cydlynol a chydgysylltiedig.

Yn benodol, rydym yn bwriadu sicrhau bod cymaint o gymorth â phosibl ar gael i dalu costau byw hanfodol, sicrhau bod llesiant corfforol ac emosiynol pobl cystal ag y gall fod, a sicrhau bod gennym gymunedau cefnogol a chysylltiedig i bobl Ceredigion.

Bydd y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi'n darparu fframwaith cadarn i sicrhau bod modd inni fynd ati ar y cyd i ddod i ddeall y sefyllfa, atgyfnerthu a datblygu mentrau amrywiol i liniaru risgiau, a chymryd camau cynnar ac ataliol. Bydd y Strategaeth yn darparu un ddogfen a fydd yn sicrhau bod arweinwyr y Cyngor, ein partneriaid a'r cyhoedd yn cael diweddariadau rheolaidd am hynt y gwaith.

Bydd y Strategaeth yn ategu'r camau i roi'r dogfennau a ganlyn ar waith:

- Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion
- Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Bydd yn gydnaws â'r strategaethau a ganlyn, a bydd yn ychwanegu gwerth atynt:

- Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24 (Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion)
- Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-35
- Strategaeth Addasu ac Atgyfnerthu Economi Ceredigion
- Strategaeth Dai Ceredigion

Bwriedir i'r Strategaeth hon osod sail ar gyfer y broses o adolygu Strategaeth Trechu Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae'n bryd i'r adolygiad hwnnw ddigwydd nawr.

Mae'r hyn yr ydym yn ei wybod am argyfwng COVID-19 yn newid yn gyflym, a bydd mwy o ddata'n dod i'r amlwg dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf a fydd yn ein helpu i lunio ac i ddatblygu'r broses o roi'r Strategaeth hon ar waith. I bennu sail a thrywydd y Strategaeth hon, rydym wedi cynnal ymgynghoriad cychwynnol ag asiantaethau sy'n bartneriaid inni. Bydd ymgynghoriad pellach yn rhan hanfodol o'r Strategaeth hon i'n helpu i ddatblygu ac i ddiffinio manylion Cynllun Gweithredu'r Strategaeth.

## Cefndir

Mae caledi ariannol yn cyfeirio at sefyllfa lle mae unigolyn yn ei chael yn anodd diwallu ei anghenion sylfaenol ei hun neu anghenion sylfaenol plentyn neu berson ifanc neu rywun arall sy'n dibynnu arno. Fel rheol, nid yw unigolyn sy'n wynebu caledi'n gallu talu dyledion na biliau oherwydd ei fod yn ennill llai o incwm neu incwm annigonol, a bydd yn wynebu gofid ariannol a phersonol.

Cyn pandemig y coronafeirws, y problemau hynny sy'n aml yn gysylltiedig â byw mewn cymunedau gwledig oedd nodweddion tlodi yng Ngheredigion – incwm is a chyfraddau cyflogaeth is, yn ogystal â chostau uwch am dai, cludiant ac ynni. Mae'r cyfleoedd gwaith hefyd yn gyfyngedig, ac mae hyn yn pwysleisio'r baich ariannol a'r prinder cyfleoedd y mae llawer o drigolion yn eu hwynebu.

Er enghraifft, £24,126 yw enillion blynyddol cyfartalog trigolion Ceredigion. Mae hyn dros £2,000 yn is na'r ffigur o £26,267 ar draws Cymru gyfan. Mae tri chwarter swyddi Ceredigion yn ennill cyflog gros blynyddol o £31,940 neu lai. Mae ffigur cyfatebol Cymru lawer yn uwch, sef £34,508.[i] O ran y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019, 65.1% oedd cyfradd gyflogaeth Ceredigion, cyfradd sy'n llawer is na chyfradd Cymru gyfan o 72.3%.[ii] O ran trydan, cost uned fesul cilowat awr de Cymru (gan gynnwys Ceredigion) yw 15.07c, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd y DU o 14.33c ac ymhlith y costau uchaf ar draws y DU. Cost gyfartalog bil trydan domestig blynyddol yn rhanbarth de Cymru yw £692. Hon yw un o'r cyfraddau uchaf ledled y DU, ac mae £20 y flwyddyn yn ddrutach na chyfartaledd y DU.[iii] Yn ystod y flwyddyn hyd at fis Medi 2019, £164,000 oedd pris cyfartalog tŷ yng Nghymru, ond roedd pris cyfartalog tŷ yng Ngheredigion wedi cyrraedd £192,346, cynnydd o 5% dros y deuddeg mis blaenorol, a bron i ddwywaith y gyfradd ledled Cymru gyfan.[iv]

Mae dros hanner poblogaeth Ceredigion yn byw tu allan i'r prif drefi, ac mae hyn yn tanlinellu'r problemau sy'n gysylltiedig â natur wledig y sir. Ond mae tlodi'n aml yn guddiedig – bydd pobl hŷn yn aml yn teimlo'n fwy ynysig na chenedlaethau iau, mae prinder gwasanaethau fel iechyd, ysgolion a chyrsiau hyfforddi'n rhoi mwy o straen ar deuluoedd ac arian aelwydydd, ac mae cysylltedd digidol yn chwarae rôl gynyddol bwysig yn ein gweithgareddau cymdeithasol a'n gallu i gael gafael ar wasanaethau.

Er enghraifft, mae 12% o'r boblogaeth dros 75 oed yn teimlo gwacter cyffredinol, ac mae dros chwarter (26%) yn dweud eu bod yn gweld eisiau cael pobl o'u hamgylch.[v] Mae astudiaethau amddifadedd, fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, yn aml yn tynnu sylw at 'fynediad at wasanaethau' a 'mynediad at dai' fel problemau sy'n arwain at dlodi a chaledi yn y sir.[vi] Mae adroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2019 – Cymru yn tynnu sylw at y ffaith mai yng Ngheredigion y mae'r gyfran fwyaf ond un o safleoedd heb fynediad at wasanaethau rhyngrwyd 10Mbit/eiliad neu ragor, sef 12% neu tua 4,500 o safleoedd.[vii]

Yn ystod y tri mis diwethaf, mae llawer o'r pryderon hyn a oedd yn bodoli eisoes wedi dwysáu, ac mae heriau newydd wedi dod i'r amlwg hefyd.

Bydd pandemig COVID-19 yn cael effaith bellgyrhaeddol yn awr ac yn y tymor hir ar yr economi a'r gymdeithas. Yng Ngheredigion, bydd llawer o unigolion a theuluoedd yn ei chael yn anodd ymdopi â'r risgiau i'w bywoliaeth a'u sefydlogrwydd ariannol, yn ogystal â goblygiadau COVID-19 i'w hiechyd

corfforol a'u hiechyd meddwl. Mae argyfwng COVID-19 yn debygol o effeithio'n andwyol ar lawer o drigolion Ceredigion drwy beri iddynt golli incwm a thrwy amharu ar eu sefyllfa ariannol. Ond prin yw'r wybodaeth am hyd a lled y caledi hwnnw.

Mae grwpiau penodol o bobl mewn mwy o berygl o wynebu caledi ariannol, gan gynnwys:

- Pobl mewn swyddi â chyflogau isel
- Pobl hunangyflogedig
- Pobl sydd wedi colli eu swyddi neu bobl heb swyddi sefydlog
- Pobl heb fawr ddim cynilion, neu ddim o gwbl, neu bobl â dyledion mawr ar ffurf morgeisi, benthyciadau, cardiau credyd neu'r dreth gyngor
- Pobl sy'n gweithio dan gontractau dros dro neu mewn swyddi tymhorol
- Pobl sy'n wynebu costau uwch am ynni, bwyd a hanfodion eraill oherwydd bod rhaid iddynt hunanynysu
- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell y mae'n anoddach iddynt gael mynediad at gymorth oherwydd natur wledig yr ardal
- Pobl â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes neu gyflyrau iechyd cronig, a phobl y mae lledaeniad y feirws yn effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol arnynt
- Gofalwyr sy'n darparu gofal di-dâl i ffrind neu aelod o'r teulu
- Plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed
- Gweithwyr mudol sy'n fwy tebygol o gael eu cyflogi gan asiantaethau, dan gontractau dim oriau, ac mewn swyddi dros dro
- Pobl ifanc o dan 25 oed sy'n fwy tebygol o fod yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau fel lletygarwch a siopau heblaw siopau bwyd
- Pobl sy'n dioddef tlodi digidol
- Pobl â nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010).

Ochr yn ochr â'r ddyletswydd i ystyried yr effaith ar y nodweddion gwarchodedig, mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Bydd yn ofynnol asesu sut y mae tlodi a chaledi'n effeithio ar bawb, gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig.

Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y gallai'r ffactorau straen cymdeithasol cynyddol sy'n gysylltiedig â COVID-19 niweidio llesiant pobl yn y tymor byr neu'r tymor hirach. Gallent effeithio ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed yn enwedig, ac mae pryderon y bydd cam-drin domestig, problemau iechyd meddwl, a phroblemau rhianta yn cynyddu. Gallai materion o'r fath gynyddu'r risg o ddioddef caledi ariannol, a chynyddu'r galw am wasanaethau gofal a chymorth, yn ogystal â'r angen am gyngor a chymorth ariannol.

Er bod y sefyllfa'n dal i ddod i'r amlwg, mae'r peryglon o ran goroesiad busnesau a swyddi yng Ngheredigion yn real iawn, ac mae pob un ohonom yn sylweddoli y bydd yr economi leol yn edrych yn wahanol iawn ar ddiwedd y pandemig. Bu i'r economi grebachu 2% yn ystod tri mis cyntaf 2020[viii]

wrth i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, ac mae disgwyl crebachiad llawer mwy o hyd at 35% yn ystod yr ail chwarter hyd at ddiwedd mis Mehefin.[ix] Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd yr economi'n dioddef dirwasgiad, gyda diweithdra'n cynyddu'n sylweddol, gan gyrraedd cymaint â 10% erbyn mis Mehefin.[x] Ceir cydnabyddiaeth eang fod Cymru, a gorllewin gwledig Cymru'n enwedig, yn fwy agored i'r effeithiau hyn na rhannau eraill o'r DU oherwydd strwythur yr economi. Er enghraifft, mae cyfran uwch o'i gweithwyr yn ennill cyflogau isel ac yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau, fel twristiaeth, lletygarwch a manwerthu, ac mae'r economi'n seiliedig yn bennaf ar fusnesau bach sy'n fwy bregus yn ystod argyfwng ariannol.

Mae mwyafrif llethol busnesau Ceredigion (99%) yn fusnesau 'micro' neu'n fusnesau 'bach', ac mae'r rhain yn dueddol o fod yn llai cydnerth o safbwynt ariannol. Mae sectorau a chyflogwyr mwyaf y sir hefyd ymhlith y rheini sydd wedi dioddef fwyaf oherwydd y pandemig – mae tua 4,000 yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth sy'n cyfrif am bron i 13% o'r swyddi, ac mae mwyafrif llethol y busnesau hynny'n dal i fod ar gau. Mae'r argyfwng wedi taro ffermydd a busnesau amaethyddol hefyd gan fod prisiau'n disgyn a chadwyni cyflenwi'n dioddef. Mae'r sector hwn yn cyfrif am 1,400 o swyddi eraill. O ran addysg, sector mwyaf yr economi, cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth ddechrau mis Mehefin y bydd yn agor ei drysau i fyfyrwyr ym mis Medi, a bydd Coleg Ceredigion yn ailagor ar 15 Mehefin ar gyfer asesiadau.

Yn gyffredinol, mae dros 17,000 o swyddi'r economi leol yn rhan o'r meysydd amaethyddiaeth, cyfanwerthu/manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, addysg, a thwristiaeth, ac mae'r rhain yn cyfrif am 56% o holl swyddi'r sir. Byddai gostyngiad bach, hyd yn oed, yn nifer y swyddi yn y sectorau hyn yn cael effaith fawr ar ein heconomi, ein gwasanaethau cyhoeddus a'n cymunedau. Os bydd un o bob pedwar gweithiwr yn y sectorau sydd wedi cau oherwydd y pandemig yn colli ei swydd, mae Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru yn rhagweld y gallai diweithdra yng Nghymru fod yn uwch nag y bu yn ystod y dirwasgiad diwethaf ar ôl argyfwng ariannol 2008.[xi]

Mae argraffiadau'r cyhoedd o'r argyfwng hefyd yn peri pryder ac yn rhoi cipolwg inni ar yr effaith y gallwn ei disgwyl dros y misoedd nesaf, yn ogystal â'r effaith uniongyrchol. Mae arolwg diweddaraf Iechyd Cyhoeddus Cymru hyd at ddiwedd mis Mai yn dangos bod ychydig dros hanner (51%) y cyhoedd yn dal i bryderu ychydig neu lawer am eu hiechyd meddwl, 39% yn pryderu ychydig neu lawer y byddant yn colli eu swydd neu na fyddant yn gallu cael hyd i swydd, a 39% arall yn pryderu am arian yr aelwyd yn sgil y pandemig.[xii] Mae canfyddiadau arolygon eraill yn debyg – yng Nghymru, mae incwm 81.5% o'r boblogaeth wedi gostwng, mae 12% yn ei chael yn anodd talu biliau bwyd ac ynni, ac mae 42% yn disgwyl y bydd sefyllfa ariannol yr aelwyd yn gwaethygu ychydig neu lawer dros y deuddeg mis nesaf.[xiii]

Astudiaeth achos

# Caledi ariannol ac iechyd meddwl

Yn sgil pandemig y coronafeirws, mae pryderon ariannol a phroblemau iechyd meddwl wedi dod i ran un teulu.

Cafodd y tad ei roi ar ffyrlo ym mis Mawrth, ond er i'r teulu wneud cais i gael cymorth ariannol, nid oes unrhyw daliad wedi dod i law hyd yma ac mae'r teulu wedi'i chael yn anodd talu rhent a biliau a phrynu bwyd gydag 80% o'i enillion. Mae'r teulu wedi gorfod troi at barseli bwyd ddwywaith yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r fam yn dioddef problemau iechyd meddwl ac mae'n feichiog. Mae hi'n gofidio am nad oes modd iddi fynd i weld bydwraig wyneb yn wyneb ac am ei bod yn methu gwiriadau iechyd pwysig. Mae'r pryderon ariannol wedi ychwanegu at broblemau iechyd meddwl y fam.

Mae'r teulu'n dal i fod yn bositif iawn, ac maen nhw i gyd wedi cadw'n saff ac yn iach drwy gydol y deg wythnos diwethaf. Serch hynny, maen nhw'n pryderu am eu sefyllfa ariannol ac yn gofidio na fydd ganddyn nhw ddigon o arian i brynu eitemau hanfodol pan gaiff y babi ei eni.

# Colli incwm a mynediad at gymorth

Astudiaeth achos

Mae teulu arall yn cynnwys mam, tad a dau fab ifanc. Er bod incwm y teulu'n isel cyn pandemig y coronafeirws, roedden nhw'n cadw at eu cyllideb ac roedden nhw'n bwriadu priodi eleni. Yn anffodus, fe gollodd y tad ei swydd gyda chwmni lleol pan ddaeth y gwaith i ben o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud.

Nid yw ei bartner yn gweithio ac mae'n gofalu am y ddau blentyn. Yn anffodus, mae hi'n dioddef problemau iechyd meddwl sy'n gallu bod yn ddifrifol pan fydd yn gadael cartref y teulu.

Oherwydd yr amgylchiadau hyn, mae'r teulu'n wynebu caledi ariannol go iawn – bu'n rhaid iddyn nhw hawlio'r Credyd Cynhwysol, ond maen nhw'n dal i aros i gael y taliad cyntaf, a bu'n rhaid iddyn nhw hawlio blaendaliad Credyd Cynhwysol ar ffurf benthyciad cyllidebu i dalu eu rhent.

Maen nhw hefyd wedi cysylltu â'u Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd i gael parsel bwyd ac adnoddau i helpu eu plentyn hynaf â'i waith ysgol – roedd eu pensiliau a'u papur wedi dod i ben ac nid oeddent yn gallu fforddio prynu mwy. Mae mynediad at y we wedi peri iddi fod yn anodd iddyn nhw gynorthwyo'r plant tra mae'r ysgol ar gau. Dim ond ar ffôn symudol y maen nhw'n gallu cael gafael ar waith ysgol, ac mae'n anodd iawn

# Effaith y coronafeirws ar Geredigion

Yr hyn yr ydym yn ei wybod ym mis Mai 2020: y

## 31%

o weithwyr Cymru ar ffyrlo a 3% wedi colli'u swyddi'n barhaol

## 16%

o weithwyr yn ennill incwm 'gryn dipyn yn is' oherwydd eu bod yn cael llai o waith neu'n gweithio llai o oriau

## £258,000

o wariant ychwanegol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

## £64,000

o wariant ychwanegol ar y Taliad Disgresiwn ar Gostau Tai

## 4.4%

o gynnydd yng nghost y fasged siopa gyfartalog

## 75%

o'r gweithwyr mewn galwedigaethau lle mae'n rhaid iddynt ddod i gysylltiad mynych â phobl a chlefydau yn fenywod

## 43%

o bobl yn dweud bod COVID-19 a'r cyfyngiadau symud yn effeithio ar eu llesiant

## 15%

o drigolion Ceredigion heb fynediad at y rhyngrwyd i siopa ac i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein

## 8%

o gynnydd yn nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim – 101 o ddisgyblion ychwanegol

## cynnydd

mawr yn y galw am barseli bwyd ym Manc Bwyd Aberystwyth (cynnydd o 37%) a

# Effaith y coronafeirws (COVID-19): ‘Yr hyn yr ydym yn ei wybod’ ym mis Mai 2020

## Incwm aelwydydd

**Mae cyfran sylweddol o’r boblogaeth yn ennill llai o incwm neu wedi colli’u hincwm o ganlyniad uniongyrchol i’r coronafeirws a’r cyfyngiadau symud.**

Ar draws Cymru, mae rhwng 27-31% o’r gweithwyr ar ffyrlo, mae 3% wedi colli’u swyddi’n barhaol, ac mae incwm 16% arall wedi gostwng yn sylweddol oherwydd eu bod yn cael llai o waith neu’n gweithio llai o oriau.[xiv]

Mae’r enillion blynyddol cyfartalog eisoes yn is yng Ngheredigion nag ar draws Cymru ac, ac eithrio Powys, maent hefyd yn is na gweddill rhanbarth canolbarth a de-orllewin Cymru. Enillion blynyddol cyfartalog trigolion Ceredigion yw £24,126. Mae hyn dros £2,000 yn is na’r ffigur o £26,267 ar draws Cymru gyfan. Mae incwm cyffredinol aelwydydd Ceredigion (£27,754) ychydig yn is na’r cyfartaledd cenedlaethol (£27,962), ond mae gryn dipyn yn is na chyfartaledd y DU i gyd (£31,979). (Mae incwm yn cynnwys pensiynau a buddsoddiadau eraill, nid cyflogau yn unig.)

Mae argraffiadau’r cyhoedd ledled Cymru hefyd yn pwysleisio’r pryderon am effaith yr argyfwng yn y dyfodol – mae 62% yn cytuno y bydd y coronafeirws yn effeithio arnyn nhw a’u teuluoedd yn ariannol, 23% yn pryderu a fyddant yn gallu talu eu biliau ymhen mis[xv] a bron i un o bob pump (19%) yn poeni ‘llawer’ y gallent golli eu swydd neu na fyddant yn gallu cael hyd i swydd.[xvi]

Ar y llaw arall, mae prisiau eitemau ‘hanfodol’ wedi cynyddu mewn archfarchnadoedd – cynnydd o 8% yn ystod mis Ebrill. Cynyddodd cost y fasged siopa gyfartalog (gan gynnwys tuniau ffa, papur tŷ bach, a chynnyrch glanhau) 4.4% yn ystod y mis.[xvii]

## Dyled ariannol

**Mae dyled ariannol aelwydydd Cymru’n uwch na’r cyfartaledd, ac fe allai’r sefyllfa waethygu oherwydd y coronafeirws.**

Amcangyfrifir bod 8% o’r oedolion sy’n byw yng Nghymru’n wynebu problemau difrifol o ran dyledion. Mae'r gyfran hon yn uwch na chyfartaledd y DU o 6% ac mae’n gyfwerth â 193,000 o bobl ar draws y wlad. Mae 412,000 neu 16% o boblogaeth Cymru hefyd yn dangos arwyddion gofid ariannol.

‘Gostyngiad yn eu hincwm’ yw’r rheswm mwyaf cyffredin pam fod pobl yng Nghymru mewn dyled, ac ôl-ddyledion y dreth gyngor yw’r ddyled fwyaf cyffredin. Mae’r drefn ffyrlo a/neu ddiswyddiadau yn debygol o effeithio ar y ddau beth hyn. Mae’n anodd pennu lefel gyfartalog y ddyled, ond yn ôl elusen StepChange sy’n gweithio yn y maes mae gan ei chleientiaid ddyled ansicredig o £10,415 ar gyfartaledd.[xviii]

Mae dros ddau o bob pump (42%) o'i chleientiaid yng Nghymru'n agored i niwed am reswm arall hefyd, ar ben eu hanawsterau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys problemau iechyd meddwl, problemau iechyd corfforol, anableddau dysgu, nam ar eu clyw neu'u golwg, a chyflyrau eraill sy'n peri iddi fod yn anoddach fyth iddynt fynd i'r afael â'u dyled.

## Cymorth ariannol

### Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael cymorth gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor Sir Ceredigion drwy'r cynlluniau i gynorthwyo'r rheini y mae'r pandemig yn effeithio arnynt yn ariannol.

Mae data dros dro yr Adran Gwaith a Phensiynau'n dangos bod nifer y bobl yng Ngheredigion sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol wedi cynyddu'n sylweddol ledled y sir rhwng canol mis Mawrth a chanol mis Ebrill. Yn Aberteifi, fe welodd y Ganolfan Byd Gwaith gynnydd o 46%, gyda 774 o bobl ychwanegol yn hawlio'r budd-dal. Yn Aberystwyth, cafwyd 1,089 o hawlwyr ychwanegol sy'n gyfwerth â chynnydd o 44%.[xix]

Mae'r ffigurau diweddaraf am y nifer sy'n hawlio budd-daliadau'n dangos cynnydd o 108% yng Ngheredigion rhwng 12 Mawrth a 9 Ebrill (900 o hawliadau). Hwn oedd y cynnydd mwyaf ar draws holl awdurdodau lleol Cymru. I roi hyn yn ei gyd-destun, cafwyd cynnydd o 72% yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ar draws Cymru gyfan, a chynnydd o 100% ym Mhowys. (Mae ffigurau'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau'n cynnwys y Lwfans Ceisio Gwaith a'r Credyd Cynhwysol.)[xx]

Mae'r cymorth ariannol a ddarperir gan wasanaethau Cyngor Sir Ceredigion wedi cynyddu hefyd. Er na allwn ddweud yn bendant bod pob un o'r hawliadau hyn yn deillio'n uniongyrchol o'r coronafeirws, mae'n debygol iawn ei fod wedi cyfrannu at y sefyllfa. Er enghraifft, cafwyd cynnydd sylweddol yng ngwariant y Cyngor ar y Taliad Disgresiwn ar Gostau Tai. Ar 11 Mai, roedd y gwariant wedi cyrraedd bron i £135,000 o'i gymharu â bron i £71,000 ar yr un adeg y llynedd. Digwyddodd y cynnydd o £64,000 neu 47% dros gyfnod o ddim ond pum wythnos.

Mae'r awdurdod hefyd yn pryderu am y cynnydd yn y gwariant ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Rhwng 20 Mawrth a 4 Mai, cafwyd cynnydd o 93 yn y nifer sy'n defnyddio Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, gan roi cyfanswm o 5,550. Mae'r gwariant yn cynnwys hawlwyr newydd a phobl a oedd eisoes yn hawlio gostyngiad y mae'r swm y gallant ei hawlio wedi newid oherwydd bod eu hamgylchiadau wedi newid e.e. pobl ar ffyrlo sy'n ennill dim ond 80% o'u cyflog a chanddynt hawl i ostyngiad mwy. Roedd y Cyngor wedi cyllidebu £5.922m ar gyfer gwariant gros Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn 2020/21 (cyn COVID-19). Fel rheol, byddai'r gyllideb hon wedi bod yn ddigonol i dalu am y gwariant blynyddol. Fodd bynnag, ar 8 Mai, roedd y Cyngor eisoes wedi gwario £6.18m ar y cynllun – gorwariant o £258k bum wythnos yn unig ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. (Sylwch fod y Cyngor yn cael rhan o'r arian ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gan Lywodraeth Cymru.)[xxi]

Mae'r sefyllfa wedi effeithio ar feysydd eraill, fel cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor, hefyd. Ar 1 Mai y llynedd, 11.9% oedd y gyfradd gasglu, ond roedd y gyfradd wedi gostwng i 10.7% ar 1 Mai eleni.[xxii] Yn yr un modd â biliau hanfodol eraill fel y cyfleustodau, mae cyfradd gasglu'r Dreth Gyngor yn arwydd o hyd a lled unrhyw argyfwng ariannol, ac mae'n debygol bod y coronafeirws a'i effaith ar yr economi wedi cyfrannu at y gostyngiad hwn.

Ledled Cymru, gwnaed bron i 11,000 o Daliadau Cymorth Brys gwerth £672,000, a'r rheini'n gysylltiedig â'r coronafeirws. Y prif resymau a roddwyd oedd gorfod rhoi'r gorau i weithio neu orfod gweithio llai o oriau, a gorfod talu mwy am ynni/tanwydd oherwydd bod rhaid aros gartref.

## Mynediad at fwyd hanfodol



**Mae'r galw am gymorth gan fanciau bwyd wedi cynyddu yng Ngheredigion, ac fe bennwyd bod mynediad at fwyd yn destun pryder, yn enwedig yn ystod dyddiau cynnar y cyfyngiadau symud ac yn union cyn eu cyflwyno.**

Ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud, mae'r galw am barseli bwyd gan fanciau bwyd Aberystwyth, Aberteifi a Llambed wedi cynyddu'n sylweddol. Yn 2019, byddai banc bwyd Aberystwyth yn rhannu 19 pecyn yr wythnos ar gyfartaledd. Ond yn ystod yr wythnos cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud, fe ddechreuodd rannu 53 pecyn, ac mae wedi parhau i rannu 30 yr wythnos ers hynny, sef cynnydd o 37%.

Mae'r sefyllfa'n debyg yn Aberteifi lle mae'r banc bwyd yn amcangyfrif iddo weld cynnydd o tua 50% yn y galw ers dyfodiad y coronafeirws. (Disgwylir i Ymddiriedolaeth Trussell gyhoeddi ffigurau manwl cyn bo hir.) Mae mwyafrif y bobl sy'n cysylltu â'r banciau bwyd yn hunanynysu, yn methu â gweithio, ac yn aelwydydd â phlant / plant sy'n cael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, nid yw'r banciau bwyd wedi gweld mwy o gynnydd na'r arfer o ran y rheini sy'n cael eu hatgyfeirio atynt oherwydd y Credyd Cynhwysol.

Cafwyd cynnydd mawr yn y galw am barseli bwyd gan fanc bwyd Llandysul yn union cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud, a hynny fwy na thebyg oherwydd y panig i brynu bwyd a'r ansicrwydd, ond mae'r galw wedi lleihau dros yr wythnosau ers hynny. Mae banc bwyd Llambed yn amcangyfrif bod y galw wedi cynyddu 3-4 gwaith o'i gymharu â'r sefyllfa cyn cyflwyno'r cyfyngiadau symud.

Ar ddechrau'r cyfnod dan gyfyngiadau symud, sicrwydd y cyflenwad bwyd oedd un o bryderon y banciau bwyd – roedd hi'n anodd cael gafael ar hanfodion fel bara, ac roedd hi hefyd yn anodd prynu cyflenwad digonol oherwydd bod nwyddau'n brin yn y siopau. Llwyddwyd i oresgyn y problemau hyn gyda chymorth manwerthwyr ac unigolion, ac maent yn gobeithio y bydd y stoc leol o hanfodion yn dychwelyd i'w lefel arferol yn fuan. Yn ôl y banciau bwyd, maent yn dal i gael llawer o roddion ariannol, ond nid ydynt yn cael cymaint o roddion bwyd.

Yn ôl Credu (cysylltu gofalwyr), cael gafael ar wasanaeth dosbarthu bwyd oedd y broblem fwyaf, yn enwedig mewn achosion lle mae aelwyd gyfan yn ynysu ond nad yw wedi'i chynnwys ar restr warchod y llywodraeth, a lle nad oes ganddi gar a'i bod yn arfer dibynnu ar wasanaethau dosbarthu bwyd yr archfarchnadoedd.

## Cymorth gan grwpiau cymunedol

### Mae'r galw am gymorth gan Gyngor ar Bopeth a grwpiau cymunedol eraill wedi cynyddu yng Ngheredigion.

Mae Cyngor ar Bopeth wedi parhau i ddarparu gwasanaeth helaeth yn ystod y cyfnod hwn, gan gynorthwyo 508 o gleientiaid â 1,733 o broblemau rhwng 2 Mawrth ac 17 Ebrill, a hynny er nad oedd modd cael apwyntiadau wyneb yn wyneb na defnyddio gwirfoddolwyr. Er nad yw nifer y cleientiaid wedi cynyddu, cafwyd cynnydd yn nifer y "cysylltiadau cyflym" lle cafodd unigolion wybodaeth hunangymorth neu'u cyfeirio at wybodaeth o'r fath – 57 rhwng 2 Mawrth ac 17 Ebrill o'i gymharu â 21 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

Mae Tîm Cyngor Ynni Cyngor ar Bopeth hefyd yn ymbaratoi ar gyfer cynnydd yn y galw am gredyd mesuryddion rhagdalu dros y misoedd nesaf wrth i'r pandemig effeithio ar incwm aelwydydd. Rydym yn gwybod bod cartrefi oer yn fater pwysig sy'n effeithio ar iechyd yn y sir, ac mae'r tîm yn chwilio am ffyrdd o gynyddu'r credyd mesuryddion sydd ar gael i ateb y galw hwnnw, yn enwedig wrth inni droi at fisoedd oerach yr hydref a'r gaeaf.[xxiii]

Mae Cyngor ar Bopeth yn dal i ymdrin yn bennaf ag ymholiadau am fudd-daliadau, gyda 225 o'r cleientiaid am drafod budd-daliadau ac eithrio'r Credyd Cynhwysol (249 yn 2019) a 112 am drafod y Credyd Cynhwysol (65 yn 2019). Mae nifer y cleientiaid sydd am drafod dyledion wedi disgyn i 64 cleient (177 yn 2019), ond mae'r nifer sydd am drafod materion cyflogaeth, defnyddwyr, tai a mewnfudo wedi cynyddu o'i gymharu â'r un adeg y llynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan 64% o'r cleientiaid anabledd neu salwch cronig (gan gynnwys afiechyd meddwl) (68% yn 2019).

Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn rhagweld y bydd prinder incwm, neu incwm is, yn arwain at galedi ariannol yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir ymhlith pobl gyflogedig a hunangyflogedig. O ran teuluoedd, bydd y tensiynau sydd ynghlwm wrth hunanynysu, gwarchod a chadw pellter cymdeithasol, a chau ysgolion a lleoliadau allgyrsiol, yn ychwanegu straen at sefyllfa economaidd anodd. Mae achosion o gam-drin domestig, cam-drin plant, esgeulustod, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a hapchwarae yn debygol o fod yn arbennig o anodd i'r teuluoedd a'r aelwydydd sy'n wynebu'r problemau hyn. Rydym yn gwybod bod anawsterau ariannol yn dwysáu'r problemau hyn a'u bod yn effeithio'n andwyol ar iechyd a llesiant meddwl yn gyffredinol. Gall ofn bod yn sâl, ymdeimlad o fod wedi'ch ynysu, a'r posibilrwydd o fethu â cheisio na chael cymorth meddygol ar gyfer problemau amrywiol effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n ennill incwm isel (nad ydyw mor hawdd iddynt deithio), pobl ag anableddau dysgu, pobl â phroblemau iechyd meddwl acíwt, pobl â chyflyrau iechyd cronig, pobl anabl, pobl hŷn, a gofalwyr. Mae pobl yn y

grwpiau hyn yn fwy tebygol o fod dan anfantais economaidd ac fe allant fod hyd yn oed yn dlotach erbyn hyn.

O edrych tua'r dyfodol pan fydd y cyfyngiadau symud yn cael eu llacio a'r cynllun ffyrlo'n dod i ben, mae Cyngor ar Bopeth yn disgwyl i'r galw am gyngor o bob math gynyddu'n sylweddol pan fydd busnesau'n mynd i'r wal a gweithwyr yn colli eu swyddi, gan effeithio ar yr economi a bywoliaeth aelwydydd. Mae hyn yn cynnwys cyngor dyledion, cyngor cyflogaeth – maes lle mae'r galw wedi cynyddu eisoes – a mynediad at y rhyngrwyd i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein e.e. i wneud cais i gael y Credyd Cynhwysol neu gais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

## Plant ac addysg

**Mae'r ymchwil ddiweddaraf yn dangos bod llawer o rieni'n ymdopi'n dda tra mae eu plant gartref, ond ceir rhai pryderon amlwg, yn enwedig o ran yr effaith ar eu haddysg a'u llesiant, a'r effaith ar dlodi plant pan fydd aelwyd yn colli incwm.**

Caeodd ysgolion Ceredigion ar 23 Mawrth ac nid ydym yn gwybod eto pa bryd y byddant yn ailagor yn llwyr, wrth i rieni geisio ymdopi â gweithio gartref a dysgu eu plant. Hyd yma, y brif broblem a godwyd gan rieni yn ystod y cyfnod dan gyfyngiadau symud yw'r effaith ar lesiant eu plant. Mae 59% o'r bobl â phlant yn poeni "llawer" am lesiant eu plant, 47% yn pryderu nad yw eu plant yn gweld eu ffrindiau nac yn cymdeithasu, a 36% yn pryderu'n uniongyrchol am iechyd meddwl eu plant. Mae chwarter hefyd yn pryderu mwy am effaith y pandemig ar addysg eu plant nag yr oeddent pan gaeodd yr ysgolion.[xxiv]

## Tlodi plant

**O safbwynt ariannol, mae ymchwil ddiweddar wedi rhybuddio am effaith y pandemig a'r cyfyngiadau symud ar dlodi plant.**

Yn ddiweddar, rhybuddiodd Gweithredu dros Blant fod hanner plant Cymru'n byw mewn teuluoedd heb unrhyw gynilion wrth gefn, a bod gan ddau draean lai na £1,500 yn y banc.[xxv] Mae data Cyngor Sir Ceredigion yn dangos bod nifer y plant sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu o 1,280 i 1,381 rhwng 20 Mawrth ac 8 Mai, sef cynnydd o 101 disgybl (neu 8%). [xxvi]

Yn fwy diweddar, mae adroddiad a gyhoeddwyd ddiwedd mis Mai gan y Glymblaid Dileu Tlodi Plant yn datgelu bod tlodi plant wedi cynyddu 3.1% yng Ngheredigion rhwng 2014/15 a 2018/19. Mae'r ymchwil yn dangos iddo gynyddu o 17.2% i 20.3%, sef y cynnydd mwyaf ledled Cymru. I roi hyn yn ei gyd-destun, mae ffigur Cymru gyfan yn dangos gostyngiad bach o 0.2% dros yr un cyfnod. Mae'r Glymblaid Dileu Tlodi Plant yn cynnwys 70 o elusennau a sefydliadau eraill, ac mae'n pryderu y bydd y broblem hon yn parhau i waethygu wrth i fwy o deuluoedd wynebu caledi ariannol yn sgil y pandemig.[xxvii]

Hyd yn oed cyn i COVID-19 effeithio ar incwm aelwydydd, mae tua un o bob pum plentyn yng Nghymru wedi bod yn dioddef tlodi a'i effeithiau ers 2014.[xxviii]

## Yr economi

**Mae effeithiau'r coronafeirws ar yr economi'n dechrau dod i'r amlwg, gyda chyfran uwch o fusnesau Cymru'n dweud bod eu trosiant wedi gostwng o'i gymharu â gweddill y DU, a rhai sectorau pwysig sy'n hollbwysig i economi Ceredigion, fel twristiaeth, yn cael eu taro waethaf.**

Ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud ar 23 Mawrth, mae bron i 23% o fusnesau Cymru wedi cau dros dro neu roi'r gorau i fasnachu. Mae'r gyfran hon ychydig yn uwch na Lloegr a'r Alban. Ond yr hyn sydd o'r pwys mwyaf yw bod 62% o fusnesau Cymru'n dweud bod eu trosiant wedi gostwng, cyfran sy'n uwch na chyfran y DU (57%). Mae dros chwarter (26.5%) yn dweud bod eu trosiant wedi gostwng mwy na 50%. Mae hyn hefyd yn uwch na chyfran gweddill y DU (23.4%).

Y sector llety a gwasanaethau bwyd yw'r sector mwyaf ond tri yng Ngheredigion ac mae'n cyflogi 3,500 o bobl. Hwn hefyd yw'r sector sydd wedi cael ei daro waethaf gan y cyfyngiadau symud. Mae 81% o fusnesau'r sector hwn wedi cau dros dro neu roi'r gorau i fasnachu am y tro. Nid yw ychwaith yn syndod mai yn y sector hwn y mae cyfran fwyaf y gweithlu ar ffyrlo, sef 73% o'r gweithlu.

O ran allbwn economaidd, amcangyfrifir bod cynnyrch domestig gros (GDP) y DU wedi gostwng 2.0% yn ystod Chwarter 1 (Ionawr – Mawrth) 2020. Hwn yw'r cwymp mwyaf ers Chwarter 4 (Hydref – Rhagfyr) 2008, ac nid yw'r ffigurau allbwn cenedlaethol yn adlewyrchu'r rhan fwyaf o effaith y pandemig eto.[xxix]

Disgwylir gostyngiad llawer mwy o hyd at 35% yn ystod yr ail chwarter hyd at ddiwedd mis Mehefin 2020.[xxx] Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd yr economi'n dioddef dirwasgiad, gyda diweithdra'n cynyddu'n sylweddol, gan gyrraedd cymaint â 10% erbyn mis Mehefin.[xxxi] Ceir cydnabyddiaeth eang fod Cymru, a gorllewin gwledig Cymru'n enwedig, yn fwy agored i'r effeithiau hyn na rhannau eraill o'r DU oherwydd strwythur ei heconomi. Er enghraifft, mae cyfran uwch o'i gweithwyr yn ennill cyflogau isel ac yn gweithio mewn sectorau sydd wedi cau, fel twristiaeth, lletygarwch a manwerthu, ac mae'r economi'n seiliedig yn bennaf ar fusnesau bach sy'n fwy bregus yn ystod argyfwng ariannol.

Dylid ystyried goblygiadau'r pandemig yng nghyd-destun y cyni a gafwyd yng Nghymru dros y degawd diwethaf ac effeithiau Brexit sydd ar y gorwel. Mae ymchwil yn dangos y bydd y rhain yn cael effaith ddofn ar economi Cymru gan fod mwy na 60% o allforion Cymru (gwerth £16.9 biliwn) yn mynd i'r Undeb Ewropeaidd, ac fe allai'r tariffau posibl effeithio waethaf ar Gymru, yn enwedig ar amaethyddiaeth a ffermio. Bydd y goblygiadau cyffredinol o ran teithio, prisiau tai a swm yr arian Ewropeaidd sy'n dod i law i gyd yn dylanwadu ar siâp yr economi leol yn y dyfodol.[xxxii]

## Cymorth busnes

**Mae mwy o gymorth nag erioed o'r blaen ar gael i fusnesau Cymru, ac mae mwy o fusnesau nag erioed o'r blaen yn gwneud cais am fenthyciadau a**

chymorth, rhywbeth sydd ynddo'i hun yn brawf o hyd a lled yr effaith ar y gymuned fusnes.

Mae'r ceisiadau a wnaed i gynlluniau'r llywodraeth i gefnogi'r economi yn dangos mai yng Nghymru y mae'r gyfran uchaf o fusnesau yn y DU sydd wedi gwneud cais i gael cymorth gan bob un o gynlluniau'r llywodraeth.

Mae bron i dri chwarter (74%) wedi gwneud cais i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws, 65% wedi gohirio taliadau TAW, 39% wedi gwneud cais i atal taliadau trethi busnes, 26% wedi gwneud cais i'r Cynllun Aros i Dalu, a 14% wedi gwneud cais i gael grant neu fenthyciad i fusnesau bach.

Mae hyn yn awgrymu'n gryf bod angen mwy o gymorth ar fusnesau Cymru i oroesi'r pandemig, naill ai oherwydd eu maint, eu sector, eu cadwyn gyflenwi, neu eu natur dymhorol.[xxxiii]

Yng Ngheredigion, cymeradwywyd 1,892 o geisiadau i gael grant cymorth busnes, ac roedd £23.3 miliwn wedi'i dalu i fusnesau lleol erbyn 28 Mai.[xxxiv]

## Twristiaeth

Gan fod 97% o fusnesau twristiaeth Cymru wedi cau yn ystod y pandemig, mae wedi cael effaith arbennig o andwyol ar y diwydiant twristiaeth sy'n cyfrif am tua 13% o swyddi Ceredigion (4,000).

Amcangyfrifir bod hanner staff y sector hwn wedi cael cais i gymryd gwyliau â thâl yn ystod y cyfnod hwn, a bod 35% arall wedi cael cais i gymryd gwyliau heb dâl. Hyd yma, mae 4% o'r busnesau twristiaeth wedi dileu swyddi, ond rydym yn dal i bryderu y bydd y ffigur hwn yn cynyddu dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf os bydd y cyfyngiadau symud yn parhau i fod ar waith drwy gydol tymor 2020. Efallai nad yw'n syndod, felly, bod y sector twristiaeth yn credu bod y rhagolygon yn arbennig o wael, gyda bron i bob un o'r busnesau twristiaeth (96%) yn disgwyl y bydd y pandemig yn cael effaith 'negyddol iawn' arnynt yn y dyfodol.[xxxv]

O dan y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch, nid oes raid i fusnesau â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai dalu unrhyw drethi busnes ym mlwyddyn ariannol 2020/21. Erbyn 16 Ebrill, roedd rhyddhad ychwanegol gwerth ychydig dros £7.5 miliwn wedi'i ddarparu i 636 o fusnesau. Mae mwy o waith yn mynd rhagddo i bennu busnesau na chawsant eu cynnwys o dan y cynllun ar ôl ei ddiweddaru, felly mae'n debygol y bydd y swm a ddyfernir o dan y cynllun hwn yn cynyddu.

## Amaethyddiaeth a ffermio

**Un o gonglfeini eraill economi Ceredigion yw'r 1,400 o swyddi yn y sector amaethyddiaeth (gan gynnwys ffermio), coedwigaeth a physgota – tua 4.5% o swyddi'r sir. Mae'r effaith ar ddiwydiant llaeth y sir yn peri pryder penodol.**

Disgwylir mai'r ergyd i'r diwydiant cynhyrchu llaeth fydd un o'r ergydion mwyaf i Geredigion a'r Gorllewin, yn enwedig de'r sir, a hynny gan fod busnesau prosesu llaeth sy'n cyflenwi cynhyrchwyr a gwerthwyr bwyd, gan gynnwys caffis a chyflenwyr organig, yn cau gan leihau'r galw am laeth. Dywedir bod gwerthiant proseswyr llaeth hylifol sy'n gwasanaethu'r marchnadoedd gwasanaeth a chyfanwerthu bwyd wedi gostwng 50-60%. Am y rheswm hwn, a'r ffaith bod y cyfyngiadau symud a'r gofynion i gadw pellter cymdeithasol yn dal i fod ar waith, mae'r farchnad a'r diwydiant cynhyrchu llaeth yn wynebu heriau mawr dros yr wythnosau nesaf.[xxxvi]

Mae gofid ynghylch yr ardaloedd cynhyrchu da byw hefyd, gan fod prisiau eidion wedi bod yn cwympo a bod pryderon, yn y tymor canolig, am yr effaith y bydd y cynnydd yn nifer yr ŵyn sy'n mynd i'r farchnad yn ei chael ar brisiau, gan fod cynifer o siopau a bwytai'r DU ac Ewrop ar gau. Mae'r pris cyfartalog am fustych pwysau marw yng Nghymru a Lloegr wedi gostwng 6.4% o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd, ac yn ystod y pythefnos hyd at 21 Ebrill, roedd gwerthiant ŵyn 20% yn is. Mae'n werth nodi bod lladd-dy Llanybydder ar y ffin â Sir Gaerfyrddin yn cyflogi dros 600 o bobl.[xxxvii]

Mae Tir Dewi'n dal i gynorthwyo ffermwyr y Gorllewin yn ystod yr argyfwng, ond mae'n darparu gwasanaethau dros y ffôn yn bennaf, ac nid wyneb yn wyneb. Mae Tir Dewi'n cynorthwyo ffermwyr sy'n teimlo'n ynysig, gan roi cymorth iddynt a'u cyfeirio at adnoddau i ddatrys problemau. Mae Tir Dewi ei hunan wedi wynebu anawsterau ariannol gan fod swm sylweddol o'i roddion yn dod i law yn ystod digwyddiadau cyhoeddus, gan gynnwys sioeau amaethyddol a gwasanaethau eglwys.

## Prifysgolion a myfyrwyr

**Er bod dysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben am y tro yn nwy brifysgol y sir, cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth ddechrau mis Mehefin y bydd myfyrwyr yn dychwelyd i'r campws ym mis Medi.**

Mae dysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben am y tro ym Mhrifysgol Aberystwyth ac ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn Llambed, ac mae'r prifysgolion hefyd wedi canslo arholiadau ffurfiol ar y safleoedd hyn. Mae cyrsiau i israddedigion a graddedigion yn cael eu cynnal ar-lein, ac mae seremonïau graddio wedi'u gohirio tan 2021.

Un o'r cwestiynau a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r prifysgolion eu hunain, ac i'r economïau lleol yn gyffredinol, oedd a fyddai modd ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb erbyn dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2020. Er bod rhai prifysgolion wedi penderfynu cynnal cyrsiau'r flwyddyn academaidd nesaf ar-lein yn llwyr, cyhoeddodd Prifysgol Aberystwyth ddechrau mis Mehefin y bydd myfyrwyr yn dychwelyd i'r

campws ym mis Medi. Ni ellir gorbwysleisio pa mor bwysig yw hyn – mae bron i 8,200 o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn unig, ac maent yn cyfrif am tua 11.2% o boblogaeth y sir, a thua hanner poblogaeth y dref yn ystod y tymor. Pe na bai myfyrwyr yn dychwelyd i'r campws, byddai'n cael effaith economaidd drychinebus ar fusnesau lleol. Amcangyfrifir eu bod yn werth dros £6 miliwn y mis i'r economi leol.

Ar ben hyn, y Brifysgol yw un o gyflogwyr mwyaf y sir hefyd, ac addysg yw sector mwyaf yr economi leol yn cyfrif am ryw 4,300 o swyddi ledled y sir. Byddai unrhyw ergyd i sefydlogrwydd y sefydliadau hyn yn effeithio ar weddill y sir oherwydd eu rôl fel cyflogwyr.

Mae Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant hefyd wedi cyhoeddi y bydd myfyrwyr yn dychwelyd i'r campws ym mis Medi, ond bydd yn darparu cyrsiau drwy gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a darpariaeth ar-lein.

## Cymorth i fusnesau bach



### Mae busnesau bach yn arbennig o fregus ar adegau ansicr, fel pandemig y coronafeirws, oherwydd yr effaith ar lif arian a'r gadwyn gyflenwi.

Mae hwn yn fater o bwys gan fod 92% o fusnesau Ceredigion yn fusnesau 'micro' sy'n cyflogi hyd at naw aelod staff. O gynnwys busnesau 'bach' sy'n cyflogi 10-49 aelod staff, mae'r ganran yn codi i 99%.[xxxviii] Hyd at ddiwedd wythnos gyntaf mis Mai, roedd Cyngor Sir Ceredigion wedi dyrannu 1,639 o Grantiau Cymorth Busnes gwerth cyfanswm o £20.68m[xxxix], ac mae disgwyl i'r ffigur hwn gynyddu pan gaiff ceisiadau diweddar eu prosesu. Mae busnesau llai o faint sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr yn fwy tebygol o wneud cais i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ac i'r cynlluniau grantiau/benthyciadau busnes.[xl]

Rydym hefyd yn gwybod bod busnesau llai o faint wedi cael ergyd arbennig o lem. Er enghraifft, mae cyfran uwch o fusnesau bach (24.7%) na busnesau mawr (19.7%) wedi cau dros dro ledled y DU, ac mae cyfran uwch o fusnesau bach (25.3%) na busnesau mawr (20.6%) wedi dweud bod eu trosiant wedi gostwng dros 50%. Mae'r pandemig hefyd wedi effeithio ar y cyllid sydd ar gael i fusnesau – mae 7.9% o fusnesau bach yn dweud ei bod yn anoddach cael gafael ar gyllid, a hynny o'i gymharu â 6.7% o fusnesau mawr.[xli]

Ymhlith y busnesau bach sy'n cael cymorth busnes mae 8,800 o weithwyr hunangyflogedig Ceredigion. Mae'r gyfran fwyaf ohonynt yn gweithio yn y sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota. Pe bai nifer fawr o'r busnesau hyn yn mynd i'r wal, gallai gael effaith fawr ar yr economi leol. Canfu astudiaeth Hitachi Capital Business Finance sy'n olrhain busnesau bach bob chwarter y bydd bron i draean (30%) yn ei chael yn anodd goroesi rhwng nawr a diwedd mis Mehefin, a bod 73% o gwmnïau bach Cymru'n rhagweld y byddant yn crebachu neu'n ei chael yn anodd goroesi. Perchnogion busnesau lletygarwch a hamdden (50%), manwerthu (40%) a

thrafnidiaeth/dosbarthu (37%) sy'n pryderu fwyaf y bydd eu busnesau'n mynd i'r wal.[xlii]

Mae Baromedr Busnes Banc Lloyds yn dangos bod hyder busnesau wedi chwalu ers dechrau argyfwng y coronafeirws, gyda'r gostyngiad mwyaf mewn hyder ymhlith busnesau Cymru (52%) o'i gymharu â 30% ar draws y DU i gyd.[xliii]

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng statws digidol busnes cyn y pandemig, ei ragolygon twf a'i hyder y bydd yn goroesi. Mae busnesau nad oeddent ar-lein yn fwy tebygol o fod yn pryderu y byddant yn crebachu neu'n mynd i'r wal (68% o'i gymharu â 45% o'r busnesau sydd ar-lein). Mae busnesau all-lein hefyd dros ddwywaith yn fwy tebygol na busnesau ar-lein o fod wedi cau dros dro (37% o'i gymharu ag 16%).[xliv]

## Lleihau anghydraddoldeb economaidd

**Mae pandemig y coronafeirws wedi tanlinellu bod angen mynd ati ar fyrder i leihau anghydraddoldeb economaidd yng Ngheredigion ac ar draws y Gymru wledig.**

Ym mis Mai, cyhoeddodd Sefydliad Bevan ei adroddiad ymchwil "Where next for the Welsh economy?" sy'n tynnu sylw at y ffaith mai yn y Gymru wledig (ynghyd â rhannau o'r De) y mae'r nifer fwyaf o fusnesau wedi cau, a bod economïau'r ardaloedd hyn eisoes yn gymharol wan cyn y pandemig.[xlv]

Er enghraifft, tybir y bydd 28.5% o fusnesau Ceredigion wedi cau dros dro, ffigur sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 25.5%. Mae'r un duedd i'w gweld ar draws gweddill cefn gwlad a gorllewin Cymru.[xlvi] Cafodd llawer o ffigurau gwahanol eu cyhoeddi o ran effaith gyffredinol y coronafeirws ar yr economi, ond un thema ganolog a bwysleisir gan Sefydliad Bevan yw ei fod yn debygol o arwain at gyfnod o galedi difrifol i lawer.[xlvii]

Daw i'r casgliad y bydd yn bwysicach nag erioed o'r blaen mynd ati i ddosbarthu buddion economaidd mewn ffordd decach, ac y dylid blaenoriaethu'r gwaith o wella cydraddoldeb economaidd Cymru yn y Gymru wledig (ac mewn rhannau o'r De) sydd wedi'i tharo waethaf gan y pandemig.[xlviii]

Mae ymchwil gan Sefydliad Resolution i anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru'n dangos bod y gweithlu gofal cymdeithasol yn fawr ond ei fod hefyd yn waith ansicr sy'n ennill tâl isel – mae 56% o weithwyr gofal cymdeithasol Cymru'n ennill llai na'r cyflog byw ac mae contractau dim oriau'n gyffredin. Mae'n tynnu sylw penodol at y pryder fod 83% o'r gweithwyr hyn yn fenywod a bod hyn yn cyfrannu at y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.[xlix]

## Cymorth iechyd meddwl, llesiant a chymdeithasol

**Mae disgwyl y bydd mwy o alw am gymorth iechyd meddwl a chymorth cymdeithasol wrth i bobl ddod i delerau â byw dan gyfyngiadau symud a mesurau cadw pellter cymdeithasol.**

Yn benodol, bydd angen cymorth iechyd meddwl oherwydd y risg y bydd teuluoedd neu berthnasoedd yn chwalu, oherwydd bod aelwydydd yn colli incwm, oherwydd bod pobl wedi'u hynysu, ac oherwydd bod y cyfyngiadau symud yn peri mwy o orbryder. Gan nad yw pob un o'r achosion hyn yn cael eu hadrodd ar hyn o bryd, mae'n bosibl nad ydym yn gwybod am union faint yr effaith. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu'r pryderon a ddaeth i'r amlwg drwy ymchwil Academi'r Gwyddorau Meddygol i effaith y coronafeirws ar iechyd meddwl ym mis Ebrill 2020.[l]

Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn dangos bod 87% o bobl Cymru'n pryderu llawer neu rywfaint am effaith y coronafeirws ar eu bywydau, gyda 43% yn dweud bod COVID-19 yn effeithio ar eu llesiant a 38% yn dweud eu bod yn dioddef llawer o straen a gorbryder.[li] Ychwanegodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 64% o bobl yn pryderu 'llawer' am golli rhywun oherwydd y feirws, 58% yn pryderu 'ychydig' neu 'lawer' am eu hiechyd meddwl a'u llesiant, a 25% 'yn aml' neu 'wastad' yn teimlo'n ynysig.[lii]

Un o'r pryderon mwyaf yw'r posibilrwydd y gallai nifer yr achosion o gam-drin domestig gynyddu oherwydd bod y cyfyngiadau symud yn rhoi pwysau ar deuluoedd. Yn ôl Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, dechreuodd weld cynnydd yn nifer y galwadau hyd at 10 Ebrill, ond gwelodd gynnydd mawr o 60% yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth drwy e-bost a negeseua. Mae'r elusen yn credu mai dyma pryd mae cleientiaid yn gallu cysylltu â hi, weithiau yn ystod y nos. Ar lefel ymarferol, mae'r elusen hefyd yn sôn am broblemau o ran cael gafael ar gyfarpar diogelu personol, hylif diheintio dwylo, cyflenwad swmp o bapur tŷ bach, a chyflenwadau eraill a archebwyd ond nad ydynt wedi cyrraedd hyd yma.

## Tai a digartrefedd

Ers dechrau'r pandemig, mae nifer y bobl ifanc sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref wedi cynyddu. Mae ceisiadau diweddar i ymuno â'r gofrestr dai yn cyfeirio at anawsterau ariannol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r coronafeirws, ac mae nifer y ceisiadau sy'n gysylltiedig ag anawsterau ariannol neu berthynas yn chwalu wedi dyblu.

Er i nifer y ceisiadau ostwng rhwng 20 Mawrth a 10 Ebrill, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y coronafeirws yn effeithio ar y *rhesymau* dros wneud cais. Er enghraifft, mae 80% o'r rheini sy'n rhoi "anawsterau ariannol" fel rheswm dros wneud cais yn dweud bod hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r coronafeirws. Ymhellach, o gymharu'r ffigurau â'r un cyfnod y llynedd, gwelwn fod nifer y ceisiadau sy'n gysylltiedig ag anawsterau ariannol neu berthynas yn chwalu wedi bron i ddyblu, gan gynyddu o 35% yn 2019 i 68% yn 2020. Efallai nad yw perthynas wedi chwalu o ganlyniad uniongyrchol i'r coronafeirws, ond hwn yw un o brif bryderon yr awdurdodau lleol.

O blith y 28 cais a wnaed rhwng 20 Mawrth a 10 Ebrill i ymuno â'r gofrestr dai, dywedodd deg ymgeisydd mai "rhesymau ariannol" oedd y rheswm dros symud, naill ai'n llwyr neu'n rhannol. O blith y deg ymgeisydd hynny,

dywedodd wyth ohonynt fod eu hanawsterau ariannol yn uniongyrchol gysylltiedig â'r coronafeirws. Gwnaed saith cais arall gan bobl hunangyflogedig a/neu bobl â phartner ar ffyrlo oherwydd y cyfyngiadau symud, ac roedd un ymgeisydd wedi methu â manteisio ar swydd a addawyd iddo. O blith y deunaw cais sy'n weddill, dywedodd naw ymgeisydd fod angen iddynt symud oherwydd bod eu perthynas wedi chwalu. Drwy gydweithio â'r cleientiaid, pennodd y Gwasanaeth Tai rai achosion o gymodi yn uniongyrchol oherwydd sefyllfa'r coronafeirws.

O ran ceisiadau digartrefedd, rydym hefyd yn gwybod bod nifer y ceisiadau wedi gostwng ychydig o'i gymharu â'r un adeg y llynedd (20 Mawrth tan 10 Ebrill). Mae nifer y ceisiadau sy'n gysylltiedig â phroblemau ariannol neu berthynas yn chwalu wedi gostwng hefyd. Y llynedd, roedd 44% o'r ceisiadau'n gysylltiedig â'r problemau hyn o'i gymharu â 26% eleni. Serch hynny, mae'r Gwasanaeth Tai yn disgwyl i'r ffigurau hyn gynyddu dros y misoedd nesaf, yn enwedig pan fydd pobl yn dechrau teimlo'r effaith ariannol, rhywbeth a allai beri i berthynas chwalu. Mae hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc ddigartref yn ystod mis Ebrill, ac mae'n parhau i fonitro'r sefyllfa wrth i'r cyfyngiadau symud barhau i fod ar waith.

## Y farchnad dai a fforddiadwyedd



### Mae'n debygol y bydd yr effeithiau economaidd, a phenderfyniadau darpar brynwyr i symud o drefi a dinasoedd, yn effeithio ar fforddiadwyedd tai.

Mae tystiolaeth anecdotaidd gan asiantau tai lleol yn awgrymu bod nifer yr ymholiadau gan ddarpar brynwyr tai sydd am symud i Geredigion o drefi a dinasoedd poblog wedi cynyddu. Poblogaeth Ceredigion yw'r deneuaf ond un o blith bron i bob ardal awdurdod lleol, ond mae prisiau tai hefyd yn uwch na'r cyfartaledd, ac mae'r cyfraddau rhent preifat yn uwch mewn trefi mwy fel Aberystwyth hefyd. Er enghraifft, cynyddodd prisiau tai 5% yn ystod y deuddeg mis hyd at fis Medi 2019, gan godi o £183,203 i £192,346.[liii] Mae hyn yn peri dau bryder:

- Sbarduno cynnydd ym mhrisiau tai a chyfraddau rhent, gan beri i dai fod yn llai fforddiadwy i bobl leol
- Dwysáu'r pryderon sy'n bodoli eisoes fod prisiau uchel yn peri iddi fod yn anodd i'r rheini sy'n gweithio yn yr ardal ymgartrefu yma.

Cafodd y sector cyfan ei atal dros dro ddiwedd mis Mawrth, ac ni chaniateir i asiantau tai ddangos tai i bobl yng Nghymru o hyd (fel y mae ar ddiwedd mis Mai). Er ei bod yn wybyddus bod prisiau tai'n effeithio ar yr economi ehangach ac yn effeithio'n uniongyrchol ar wariant defnyddwyr ac ar dwf yr economi, mae'n rhy gynnar inni ddweud yn union beth fydd yr effaith ar farchnad dai Ceredigion, ond mae'n debygol o effeithio'n andwyol ar y gymhareb fforddiadwyedd. Mae amcangyfrifon o'r effaith genedlaethol yn amrywio, gan awgrymu y bydd prisiau'n cwympo 5% i 10% yn ystod 2020.[liv]

## Allgáu digidol

**Mae'r sefyllfa'n effeithio'n benodol ar bobl heb fynediad at y rhyngrwyd neu bobl heb sgiliau digidol.**

Yn ôl grwpiau cymunedol yng Ngheredigion, mae'r cyfyngiadau symud a'r newidiadau a wnaed gan fusnesau wedi effeithio'n benodol ar bobl heb fynediad at y rhyngrwyd, pobl â llai o hyder i ddefnyddio technoleg neu bobl â llai o sgiliau i fynd ati i ddefnyddio gwasanaethau neu i archebu hanfodion o bell.

Er enghraifft, mae Cyngor ar Bopeth yn pryderu'n benodol am drigolion heb fynediad at y rhyngrwyd ac mae wrthi'n cael gafael ar arian i brynu dyfeisiau symudol i sicrhau bod modd i unigolion a grwpiau ddefnyddio gwasanaethau ar-lein. Mae Sefydliad Bevan yn rhoi mynediad at y rhyngrwyd yn yr un categori â mynediad at fwyd, llety a gofal iechyd fel eitemau sy'n hanfodol i oroesi yn ystod y pandemig.[lv]

Ers dechrau'r pandemig, cynyddodd siopa ar-lein 129% o wythnos i wythnos yn ystod mis Mawrth ar draws y DU, gyda chynnydd o 173% mewn trafodiadau bwyd ar-lein[lvi]. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn annog pawb sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol o'r newydd i wneud cais ar-lein. Fodd bynnag, nid oes gan 15% o aelwydydd Ceredigion fynediad at y rhyngrwyd o hyd[lvii], ac mae gwasanaethau band eang yn amrywio'n fawr gan ddibynnu ar eich lleoliad – mae gan rai trefi fynediad da at wasanaeth ffeibr llawn, ond mae llawer o ardaloedd gwledig yn ei chael yn anodd cyrraedd cyflymder band eang safonol o hyd at 30Mbit/eiliad. (Mae 20% o safleoedd yn gallu cael mynediad at wasanaethau ffeibr llawn, ond nid yw 20% o safleoedd eraill yn gallu cael gwasanaeth safonol â chyflymder o 30Mbit/eiliad. Yng Ngheredigion y mae'r gyfran fwyaf ond un yng Nghymru o safleoedd nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau sylfaenol iawn o 10Mbit/eiliad.)[lviii]

Mae'r holl ymchwil yn dangos y bydd ein defnydd o'r rhyngrwyd i brynu gan fanwerthwyr ac i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn parhau i dyfu yn sgil y coronafeirws. Ochr yn ochr â mynediad at y rhyngrwyd, mae angen sgiliau i'w ddefnyddio'n effeithiol ac yn ddiogel. Rydym yn gwybod bod pobl hŷn, yn enwedig y rheini dros 75 oed, a phobl ag anableddau yn dweud bod ganddynt lai o sgiliau digidol. Er enghraifft, 52% o'r boblogaeth 75 oed a throsodd sy'n dweud eu bod wedi meistroli pum sgìl digidol sylfaenol o'i gymharu â 95% o'r boblogaeth 16-24 oed.[lix] Nid yw'r rhain yn broblemau newydd. Tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad "Cynhwysiant digidol yng Nghymru: Persbectifau ynghylch pam mae'n bwysig a beth sydd angen ei wneud o hyd".[lx]

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**Dros yr wythnosau diwethaf, tynnwyd sylw at effaith y coronafeirws ar grwpiau penodol yn ein cymdeithas, yn enwedig y gymuned BAME, pobl hŷn a menywod, gan fod pob grŵp yn wynebu mwy o risg am wahanol resymau.**

Mae pobl o bob grŵp ethnig lleiafrifol, ac eithrio Tsieineaidd a Chymysg, mewn mwy o berygl o farw yn sgil COVID-19. Yn benodol, mae pobl ddu bron i ddwywaith mor debygol o farw yn sgil COVID-19, gan ystyried gwahanol ffactorau cymdeithasol a daearyddol. Mae pobl o'r gymuned Bangladeshaidd/Pacistanaidd dros un a hanner gwaith yn fwy tebygol o farw o'r coronafeirws.[lxi]

Mae'r risg y mae'r coronafeirws yn ei pheri i bobl hŷn wedi cael cryn sylw yn y cyfryngau – mae 72% o'r bobl sydd wedi marw o'r coronafeirws yn 75 oed a throsodd.[lxii] Mae gan Geredigion gyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl 75 oed a throsodd, gydag 11.6% o'r boblogaeth yn perthyn i'r grŵp hwn o'i gymharu â 9.5% ledled y wlad.[lxiii]

O ran menywod, mae'r risg yn gysylltiedig â phroffesiynau lle mae rhan helaeth o'r gweithlu'n fenywod, fel nyrsio a gofal cymdeithasol. Er enghraifft, mae cyfradd y marwolaethau sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws yn llawer uwch na'r boblogaeth gyffredinol ymhlith gweithwyr gofal a gofalwyr yn y cartref. Ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol benywaidd, cafwyd 9.6 marwolaeth ym mhob 100,000 o fenywod yn sgil COVID-19 o'i gymharu â 5.2 marwolaeth yn y boblogaeth fenywaidd. Mae gweithwyr gofal iechyd ymhlith y rheini sydd fwyaf tebygol o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws oherwydd eu bod yn agos at achosion ohono ac yn dod i gysylltiad â chlefydau'n gyffredinol. Mae tri o bob pedwar gweithiwr (75%) mewn galwedigaethau lle mae'n rhaid iddynt ddod i gysylltiad mynych â phobl a chlefydau yn fenywod.[lxiv]

Mae pandemig y coronafeirws wedi dwysáu rhai o'r problemau hyn, ond tynnwyd sylw atynt o'r blaen yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol "A yw Cymru'n Decach?" 2018. Dyma rai o ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw:

- Mae cyflogaeth ansefydlog tua dwywaith mor uchel â'r cyfartaledd ar gyfer y rhai 16–24 oed ac mae wedi cynyddu ar gyfer y grŵp oedran hwn.
- Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod yn gweithio mewn galwedigaethau gofalu, hamdden a gwasanaethau eraill, neu alwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid, neu alwedigaethau elfennol, sy'n tueddu i gael tâl isel, ond mae cyfrannau tebyg o fenywod a dynion mewn galwedigaethau cyflog uchel.
- Mae cyfradd cyflogaeth pobl anabl yng Nghymru yn llai na hanner yr hyn yw i bobl nad ydynt yn anabl[lxv]

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn tynnu sylw at grŵp arall y mae'r pandemig wedi effeithio arno, gan ddweud mai pobl ifanc sy'n wynebu'r ergyd fwyaf gan fod gweithwyr dan 25 oed ddwywaith a hanner yn fwy tebygol na'r rheini dros 25 oed o fod yn gweithio mewn sectorau fel lletygarwch a manwerthu (heblaw bwyd) sydd wedi cau'n llwyr yn sgil y cyfyngiadau symud.[lxvi] Mae dangosyddion economaidd y chwarter cyntaf (Ionawr – Mawrth 2020) yn dangos bod nifer yr oriau a weithiwyd wedi

gostwng fwyaf ymhlith rhai 16-24 oed, sef gostyngiad o bron i 6%. Disgwylir i ffigurau'r ail chwarter ddangos gostyngiad hyd yn oed yn fwy wrth i'r pandemig gyrraedd ei anterth yn y wlad.[lxvii]

## Mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid



Mae peth tystiolaeth yn dangos y bydd angen cymorth ychwanegol ar fudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn ystod y cyfyngiadau symud ac ar ôl eu llacio.

Mae ymchwil gan Sefydliad Bevan yn pwysleisio bod y cyfyngiadau symud yn dwysáu rhai o'r anawsterau y mae mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn eu hwynebu gan effeithio'n andwyol ar y camau i'w hintegreiddio i gymunedau lleol.

Rydym yn gwybod bod mudwyr yn gallu byw bywydau ynysig iawn, gan gysylltu â phobl o fewn eu teuluoedd neu'u cymunedau ethnig yn unig yn aml. Yn ogystal ag anawsterau cyfathrebu sy'n gysylltiedig ag iaith, ni fydd gan lawer ohonynt rwydweithiau na chysylltiadau cymdeithasol, ac fe allant fod yn ddibynnol ar grwpiau cymorth cymunedol. Disgwylir y gallai hyn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau, rhai ohonynt yn wasanaethau sydd wedi gorfod cau.

Rydym hefyd yn gwybod bod gweithwyr mudol yn arbennig o fregus o safbwynt ariannol. Er bod llawer ohonynt yn gweithio mewn swyddi allweddol, fel y sector gofal, mae'r Sefydliad yn pwysleisio bod llawer yn cael eu cyflogi gan asiantaethau, mewn swyddi dros dro neu dan gontractau dim oriau. Ar adeg pan fo cyflogau wedi gostwng, gweithwyr ar ffyrlo, neu weithwyr wedi colli'u swyddi'n llwyr, mae pryder bod mwy o berygl y bydd mudwyr yn wynebu caledi ariannol ac yn dibynnu ar gymorth ariannol. Ar ben hyn, mae pryder yn parhau o ran y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Ar hyn o bryd, nid oes modd darparu cymorth wyneb yn wyneb a bydd llawer o fudwyr yn dibynnu ar y cymorth hwn i wneud eu ceisiadau.[lxviii]

## Arferion gweithio a gweithio gartref



Bu'n rhaid newid arferion gweithio, a bydd angen paratoi cynlluniau o ran darparu gwasanaethau, a dulliau o'u darparu, yn y dyfodol. Mae cwestiynau hefyd yn codi o ran a yw rhai dulliau'n dal i fod yn hyfyw.

Oherwydd y gofynion i gadw pellter cymdeithasol, mae llawer mwy o bobl yn gweithio ar eu pennau eu hunain, ac mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cyhoeddi canllawiau i gyflogwyr i gadw gweithwyr unigol yn iach ac yn ddiogel. Yr hyn sy'n peri pryder penodol o ran gweithwyr unigol yw'r effaith ar straen ac iechyd meddwl, cadw mewn cysylltiad, a chyngor ynghylch trais sy'n gysylltiedig â'r gwaith.

Mae canlyniadau'r ymchwil i weithio gartref yn amrywio – mae iddo ddigonedd o rinweddau, fel annibyniaeth, cymhelliad, ac ymdeimlad bod y cyflogwr yn ymddiried yn y gweithwyr. Ond canfu arolygon eraill fod y rheini sy'n gweithio gartref o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud wedi mynegi nifer o

bryderon am eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl. Canfu astudiaeth gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth mai 'colli cwsg oherwydd gofid' oedd y gŵyn fwyaf cyffredin o ran iechyd corfforol, gyda 64% o'r rheini sy'n gweithio gartref yn mynegi pryder am hyn. Dywedodd 60% eu bod yn teimlo 'yn flinedig' a 58% fod ganddynt 'boen yn eu hysgwyddau'.

Y brif broblem o bell ffordd o ran iechyd meddwl oedd 'peidio â bod yn actif ac yn egnïol' (60%), gyda 45% yn dweud 'nad yw eu diwrnod yn llawn difyrrwch' a 41% 'yn gorbryderu am iechyd aelod o'r teulu'. Roedd 60% yn pryderu eu bod yn gwneud llai o ymarfer corff a 48% yn gweithio oriau hir ac afreolaidd.[lxix]

*Mae'r sefyllfa'n newid yn gyflym wrth inni ddysgu mwy am effaith y coronafeirws ar bobl ac economi Ceredigion. Mae llawer o waith ymchwil yn digwydd ledled Cymru a'r DU i bennu effaith y feirws a'r mesurau i gadw pellter cymdeithasol. Mae'r data a gyflwynir fan hyn yn darlunio'r sefyllfa fel y mae ym mis Mai 2020, ond fe all newid pan gaiff ymchwil newydd ei chyhoeddi a phan ddaw'r sefyllfa'n gliriach.*

# Edrych tua'r dyfodol:

## Pryderon y cyhoedd ledled Cymru

**62%**

yn credu y bydd y coronafeirws yn effeithio arnyn nhw a'u teulu yn ariannol

**22%**

yn pryderu 'llawer' am eu hiechyd meddwl a'u llesiant

**19%**

yn pryderu 'llawer' y gallent golli eu swydd neu fethu â chael hyd i swydd

**53%**

yn pryderu am lesiant aelodau eraill o'r teulu

**23%**

yn pryderu am eu gallu i dalu eu biliau ymhen mis

**59%**

o'r rheini â phlant yn pryderu 'llawer' am lesiant eu plant

**45%**

yn credu bod y coronafeirws yn fygythiad mawr neu fawr iawn i'w swydd neu'u busnes

**25%**

yn teimlo'n ynysig 'yn aml' neu 'o hyd' tra mae'r cyfyngiadau symud ar waith

***Ffynonellau:***

**Llywodraeth Cymru "Arolwg o farn y cyhoedd ar y coronafeirws (COVID-19)"**

**Iechyd Cyhoeddus Cymru "Arolwg sut ydym ni yng Nghymru?"**

## Gweledigaeth

Ers dechrau argyfwng COVID-19, mae diogelu a hybu diogelwch a llesiant unigolion a theuluoedd sy'n agored i niwed wedi bod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Rhoddwyd nifer o fentrau pwysig ar waith yn effeithiol ac maent yn helpu i leddfu caledi e.e. gwneud llawer o alwadau lles i gysylltu â nifer fawr o oedolion a phlant a'u teuluoedd; mynd ati'n effeithiol i ddarparu nifer fawr o focsys bwyd i rai sy'n agored i niwed; rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol; darparu gwasanaeth prydau ysgol am ddim; darparu canolfannau gofal plant; gweinyddu grantiau busnes a thaliadau tai dewisol; a pharhau i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol critigol a hanfodol.

Mae sicrhau bod pob plentyn, person ifanc ac oedolyn yng Ngheredigion yn gallu gwireddu ei botensial llawn wrth galon gweledigaeth y Cyngor. Byddwn hefyd yn sicrhau bod pawb yng Ngheredigion yn gallu cael gafael ar wasanaethau rhagorol, yn rhai cyffredinol a rhai wedi'u targedu, sy'n cefnogi eu hiechyd a'u llesiant ac yn meithrin eu sgiliau a'u cydnerthedd a fydd yn para gydol oes a'u galluogi i ymdopi â'r heriau a'r pwysau y gallent eu hwynebu. Byddwn yn cynorthwyo'r rheini sydd dan anfantais a'r rheini sy'n wynebu anawsterau, a byddwn yn diogelu ac yn meithrin y rhai sydd fwyaf agored i niwed. (Porth Ceredigion, Model Cyflenwi Gwasanaethau Integredig.)

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi wyth canlyniad llesiant cenedlaethol, ac mae'r Strategaeth hon yn ymateb i bob un o'r canlyniadau hynny:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau (rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd) | Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol | Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | Addysg, hyfforddiant a gweithgareddau hamdden |
| Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | Cyfraniad a wneir at y gymdeithas | Llesiant cymdeithasol ac economaidd | Addasrwydd llety preswyl |

Mae'r Strategaeth hefyd yn gydnaws ag ymrwymiad Cyngor Ceredigion i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ceisio gwireddu'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio:

| Saith nod llesiant |
|---|
| Cymru lewyrchus |
| Cymru gydnerth |
| Cymru iachach |
| Cymru sy'n fwy cyfartal |
| Cymru o gymunedau cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

| Pum ffordd o weithio |
|---|
| Hirdymor |
| Atal |
| Integreiddio |
| Cydweithio |
| Cynnwys |

Yn ystod y cyfnod hwn, o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19, mae llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o fesurau, grantiau a chynlluniau ariannu ychwanegol i geisio lleihau effaith COVID-19. Mae'n hollbwysig bod Ceredigion yn y sefyllfa orau bosibl i fanteisio ar y rhain ac ar bob datblygiad yn y dyfodol, a'n bod yn rhoi prosesau effeithiol ar waith i bennu'r cyfleoedd hyn ac i fanteisio i'r eithaf arnynt. O roi'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi hon ar waith, bydd yn ein helpu i wneud hyn.

## Sut y byddwn yn rhoi'r weledigaeth ar waith – y prif amcanion

Bydd y Strategaeth yn cyflawni tri phrif amcan:

**Amcan 1:** Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, dod i ddeall effaith COVID-19, wrth iddi newid, ar y caledi y mae unigolion a theuluoedd yng Ngheredigion yn ei wynebu, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.

**Amcan 2:** Cydgysylltu ac atgyfnerthu gwaith ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid i hyrwyddo'r holl gymorth sydd ar gael i liniaru'r risgiau cynyddol o galedi, a'i effeithiau, ac i fanteisio ar y cymorth hwnnw.

**Amcan 3:** Pennu bylchau o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran yr anghenion caledi wrth iddynt newid i lunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

| **Y tri phrif amcan** | | |
|---|---|---|
| Deall y sefyllfa | Cydgysylltu gwaith | Pennu bylchau a hwyluso cydnerthedd |
| Parhau i gasglu gwybodaeth sylfaenol gan wasanaethau allweddol ac asiantaethau sy'n bartneriaid | Dadansoddi a dod i ddeall yr angen ar draws gwasanaethau ac ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid | Pennu unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth, a llunio cynigion a chynlluniau gweithredu |
| Chwilio am wybodaeth benodol am y grwpiau y mae'r sefyllfa'n effeithio fwyaf arnynt | Mapio ac atgyfnerthu'r cymorth sydd ar gael | Creu cyfleoedd i bennu camau ataliol cynnar, a hyrwyddo mentrau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gydnaws â'n strategaeth i adfer yr economi ac i feithrin cydnerthedd hirdymor |
| Cytuno ar ddangosyddion allweddol i fesur cynnydd, a dadansoddi a monitro | Hyrwyddo gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael, a mynediad hwylus ato | Cynnwys asiantaethau sy'n bartneriaid a grwpiau ffocws |

| | | |
|---|---|---|
| dangosyddion cenedlaethol a lleol | | yn y gwaith i gael adborth a fydd yn sail i'r strategaeth |

## Fframwaith gweithredu

Am wahanol resymau, bydd rhai unigolion a theuluoedd yn ei chael yn anoddach ymdopi a dygymod ag effaith uniongyrchol COVID-19, ac rydym am ganolbwyntio ar dri maes sy’n peri pryder ac sy’n gorgyffwrdd â’i gilydd.

Rydym yn credu y dylai gwasanaethau helpu pobl i gyflawni eu nodau. Amlinellir atebion tymor byr, tymor canolig a thymor hir yn y Map Ffordd trosodd. Bwriedir iddynt rymuso ein cymunedau yn hytrach na pheri iddynt fod yn ddibynnol.

Mae’r Map Ffordd isod yn nodi’r materion sylfaenol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn y Cynllun Gweithredu ‘Nawr – Nesaf – Nes Ymlaen’. Mae ffactorau ehangach, fel pa mor gyflym y bydd y sefyllfa’n gwella, unrhyw donnau eraill o’r haint, strategaethau a pholisïau’r llywodraethau, a mentrau ariannu, yn sicr o ddylanwadu’n fawr ar yr amserlenni. Yn yr un modd â’r categorïau cymorth, mae’r camau ‘Nawr – Nesaf – Nes Ymlaen’ hefyd yn gorgyffwrdd rywfaint. Bydd Cynllun Gweithredu manylach yn canolbwyntio ar amserlenni a thargedau penodol. I gyflawni’r Cynllun Gweithredu, bydd gofyn coladu asesiadau cyfredol a rhagamcanol o’r effaith ariannol, y costau a’r adnoddau sy’n gysylltiedig â chynnydd yn y risg o galedi, a bydd angen inni sicrhau ein bod yn ymgynghori’n ehangach ag asiantaethau sy’n bartneriaid a’r cyhoedd.

**1** **COSTAU BYW HANFODOL**
Pobl heb ddigon o arian i brynu bwyd nac i dalu biliau a thaliadau hanfodol

**2** **LLESIANT CORFFOROL AC EMOSIYNOL**
Pobl sy’n dioddef straen, gorflinder a gorbryder a allai effeithio ar eu llesiant meddwl

**3** **CYMUNEDAU CYDNERTH**
Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein neu dros y ffôn, ac nad ydynt o fewn cyrraedd at y cymorth sydd

# Map Ffordd Nawr – Nesaf – Nes Ymlaen

## Grymuso cymunedau

### "NAWR"

Darparu cymorth uniongyrchol i unigolion a busnesau sy'n ei chael yn anodd ymdopi'n ariannol

Darparu cymorth wedi'i dargedu a chymorth cyffredinol i unigolion sy'n dioddef straen, gorflinder a gorbryder

Meithrin timau ymateb cymunedol lleol a phennu rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau

### "NESAF"

Sicrhau bod y gweithlu lleol yn barod i ddychwelyd i'r gwaith ac yn gallu gwneud hynny

Sicrhau bod cyflogwyr lleol yn barod i ailagor eu busnesau

Cynyddu'r cymorth sydd ar gael i wella llesiant meddwl ac emosiynol

Sicrhau bod y ddarpariaeth seibiant yn addas i'r diben a'i bod ar gael i'r rheini y mae ei hangen arnynt

Atgyfnerthu'r rhwydweithiau cymorth mewn cymunedau lleol ymhellach

Mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae'r rheini nad ydynt yn gallu defnyddio gwasanaethau ar-lein/dros y ffôn yn eu hwynebu

### "NES YMLAEN"

Sicrhau bod y Porth Cymorth Cynnar a'r Canolfannau Llesiant yn atgyfnerthu ac yn gwella'r ffordd yr ydym yn mynd i'r afael â chydnerthedd ariannol, llesiant emosiynol ac anghenion cysylltedd trigolion Ceredigion

Ad-drefnu strategaethau sydd eisoes ar waith (gan gynnwys y Strategaeth Tlodi a'r Strategaeth Economaidd) i liniaru effaith y dirwasgiad disgwyliedig

**Byddwn yn canolbwyntio ar dri chategori sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd:**

**1 COSTAU BYW HANFODOL**
Pobl heb ddigon o arian i brynu bwyd nac i dalu biliau a thaliadau hanfodol

**2 LLESIANT CORFFOROL AC EMOSIYNOL**
Pobl sy'n dioddef straen, gorflinder a gorbryder a allai effeithio ar eu llesiant meddwl

**3 CYMUNEDAU CYDNERTH**
Pobl nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar-lein neu dros y ffôn, ac nad ydynt o fewn cyrraedd at y cymorth sydd ar gael

## Dull gweithredu

Bydd angen gweithio drwy bartneriaeth i roi'r strategaeth hon ar waith. Bydd angen adolygu gwaith ac aelodaeth Is-grŵp Tlodi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i bennu'r dull mwyaf cynhwysfawr a chydlynol o roi'r strategaeth hon ar waith. Bydd y grŵp yn canolbwyntio ar weithredu'r strategaeth hon sy'n olynu'r Strategaeth Trechu Tlodi a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

## Cysylltiadau â strategaethau a chynlluniau eraill

Dylid darllen y ddogfen hon ochr yn ochr â strategaethau a pholisïau eraill y Cyngor a restrir isod. Mae'n ategu'r camau i roi ar waith:

- Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion
- Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion

Bydd yn gydnaws â'r strategaethau a ganlyn, a bydd yn ychwanegu gwerth atynt:

- Ceredigion Teg a Chyfartal 2020-24 (Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion)
- Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-35
- Strategaeth Addasu ac Atgyfnerthu Economi Ceredigion
- Strategaeth Dai Ceredigion

Mae'r ddogfen hon yn darparu dull trosfwaol a chyfannol o adfer y sefyllfa ar ôl yr argyfwng, ac fe'i defnyddir hefyd fel sylfaen ar gyfer y gwaith o adolygu strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill y Cyngor, fel y bo'n briodol.

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â fersiynau gwahanol o'r strategaeth hon. Rydym yn gwneud hyn er mwyn asesu effaith y strategaeth ar bobl â nodweddion gwarchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â'i heffaith ar holl drigolion Ceredigion. Mae'r asesiad effaith integredig hefyd yn pwyso a mesur yr effeithiau ar amcanion strategol Cyngor Sir Ceredigion, Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r asesiad hefyd yn rhoi sylw i'n cyfrifoldebau o dan ddyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.

Tra roeddem yn llunio'r strategaeth, buom yn trafod â 24 o sefydliadau lleol sy'n helpu i fynd i'r afael â chaledi. Buom hefyd yn casglu ynghyd ddata lleol a chenedlaethol am effaith COVID-19 ar dlodi a llesiant. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i gyflawni'r asesiad effaith integredig.

Mae pobl anabl eisoes yn wynebu anfanteision sydd wedi ennill eu plwyf o ran gwaith a ffactorau economaidd-gymdeithasol, ac mae'r sefyllfa'n debygol o waethygu yn sgil pandemig COVID-19.

Canfuwyd bod mwy o risg y gallai rhai grwpiau o bobl o gefndir Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig farw yn sgil COVID-19. Mae hyn hefyd yn wir yn achos pobl hŷn, ac mae hyn yn peri pryder penodol inni gan fod poblogaeth Ceredigion yn gymharol oedrannus. Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o fod mewn swyddi anniogel. Mae'r rhan fwyaf o'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn fenywod ac mae mwy o risg y byddant yn dod i gysylltiad â COVID-19. Menywod sy'n ysgwyddo'r rhan fwyaf o'r dyletswyddau gofal plant yn y cartref, ac mae'r ffaith bod ysgolion wedi cau yn effeithio arnynt ac yn niweidio eu gallu i fod yn economaidd weithgar. Yn sgil y cyfyngiadau symud, mae'r risg o ddigwyddiadau cam-drin domestig, a difrifoldeb y digwyddiadau hynny, wedi cynyddu.

Lluniwyd y strategaeth hon ar fyrder tra'r oedd y cyfyngiadau symud ar waith er mwyn inni allu cyflwyno mesurau lliniaru yn gyflym. Rydym yn bwriadu ehangu ein gwaith i ymgysylltu ac i ymgynghori â phobl Ceredigion pan fyddwn yn llunio cynllun gweithredu'r strategaeth hon, a phan fyddwn yn mynd ati i adolygu'r strategaeth.

## Adnoddau

Mae gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i fusnesau ac i unigolion ar gael ar ein gwefan, a byddwn yn diweddaru'r wybodaeth honno'n rheolaidd.

## Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i'n partneriaid lleol am ddarparu data gwerthfawr i'n helpu i ddod i ddeall y sefyllfa yng Ngheredigion ar hyn o bryd.

# Cyfeiriadau


[i]"Adroddiad Economaidd Sylfaenol." Cyngor Sir Ceredigion. Chwefror 2020. 10-12.

[ii]"Cyfradd gyflogaeth yn ôl ardal leol yng Nghymru a blwyddyn." StatsCymru. Ar-lein: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Persons-Employed/employmentrate-by-welshlocalarea-year Cyrchwyd: 30/05/2020.

[iii]"Adroddiad Economaidd Sylfaenol." Cyngor Sir Ceredigion. Chwefror 2020. 10-12. 54-55.

[iv]"Adroddiad Economaidd Sylfaenol." Cyngor Sir Ceredigion. Chwefror 2020. 32.

[v] "Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau 2017/18." Llywodraeth Cymru. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau Cyrchwyd: 30/05/2020.

[vi] "Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru." Llywodraeth Cymru. Ar-lein: https://llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru Cyrchwyd: 30/05/2020.

[vii] "Cysylltu'r Gwledydd 2019: Adroddiad Cymru." Ofcom. Ar-lein: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0032/186476/2019-cysylltur-gwledydd-cymru.pdf Cyrchwyd: 30/05/2020.

[viii] "GDP first quarterly estimate, UK: January to March 2020." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/januarytomarch2020?:uri=economy/grossdomesticproductgdp/bulletins/gdpfirstquarterlyestimateuk/januarytomarch2020 Cyrchwyd: 02/06/2020.

[ix] "Coronavirus Analysis." Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar-lein: https://obr.uk/coronavirus-analysis/ Cyrchwyd: 02/06/2020.

[x] "Coronavirus Analysis." Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar-lein: https://obr.uk/coronavirus-analysis/ Cyrchwyd: 02/06/2020.

[xi] Hagendyk, David a Finnegan, Jerome. "Understanding the potential impact of coronavirus in Wales." Sefydliad Dysgu a Gwaith Cymru. Ar-lein: https://www.learningandwork.wales/wp-content/uploads/2020/04/Understanding-the-potential-impact-of-coronavirus-in-Wales.pdf. Cyrchwyd: 31/05/2020.

[xii] "Sut ydym ni yng Nghymru:  Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws." Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar-lein: https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/staying-well-at-home/weekly-hayd-reports/week-7-report-how-are-we-doing-in-wales/. Cyrchwyd: 31/05/2020.

[xiii] "Coronavirus and the social impacts on the countries and regions of Britain: April 2020." Arolwg Barn a Ffordd o Fyw (modiwl Covid-19), 3 Ebrill – 3 Mai 2020. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/datasets/coronavirusandthesocialimpactsonthecountriesandregionsofgreatbritain Cyrchwyd: 31/05/2020.

[xiv] "Sut ydym ni yng Nghymru:  Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws." Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar-lein: https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/sut-wyt-ti/adroddiadau-sut-wyt-ti/adroddiad-wythnos-4-sut-ydym-ni-yng-nghymru/ Cyrchwyd: 12/05/2020

[xv] "Arolwg o farn y cyhoedd ar y coronafeirws (COVID-19): 1 i 3 Mai 2020." Llywodraeth Cymru. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-o-farn-y-cyhoedd-ar-y-coronafeirws-covid-19-1-i-3-mai-2020 Cyrchwyd: 12/05/2020.

[xvi] "Sut ydym ni yng Nghymru:  Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws." Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar-lein: https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/sut-wyt-ti/adroddiadau-sut-wyt-ti/adroddiad-wythnos-4-sut-ydym-ni-yng-nghymru/ Cyrchwyd: 12/05/2020

[xvii] "Price of high-demand food bought online in UK rises sharply." The Guardian. Ar-lein: https://www.theguardian.com/world/2020/apr/16/price-of-high-demand-food-in-uk-rises-sharply. Cyrchwyd: 13/05/2020.

[xviii] Warner, Josie (gol.). "Wales in the Red." Step Change: Leeds, 2019.

[xix] Gleeson, M. "CYFRINACHOL - Universal Credit". Derbyniwyd gan R.Starr. 12/05/2020.

[xx] "CC01 Regional labour market: Claimant Count by unitary and local authority (experimental)." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/datasets/claimantcountbyunitaryandlocalauthorityexperimental/current?:uri=employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/unemployment/datasets/claimantcountbyunitaryandlocalauthorityexperimental/current Cyrchwyd: 21/05/2020.

[xxi] Cyngor Sir Ceredigion.

[xxii] Ireland, Ann. "Ceredigion COVID-19 Gold Command - Hardship Data Request." Derbyniwyd gan R.Starr 14/05/2020.

[xxiii] Bebb, Serretta. "Pre-payment meters." Derbyniwyd gan R.Starr 22/05/2020.

[xxiv] "Coronavirus second parent survey results: Wales responses – May 2020." Parentkind. Ar-lein: https://www.parentkind.org.uk/uploads/files/1/News/Coronavirus%202/CV19%20infographic%20Wales.pdf. Cyrchwyd: 14/05/2020.

[xxv] "Coronavirus: Furloughed workers wait first pay packet." (Gwefan y BBC: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-52399268. Cyrchwyd: 13/05/2020)

[xxvi] Cyngor Sir Ceredigion

[xxvii] Parkinson, Dave. "Child poverty rises in Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthenshire." Tivy-Side Advertiser. Ar-lein: https://www.tivysideadvertiser.co.uk/news/18474439.child-poverty-rises-ceredigion-pembrokeshire-carmarthenshire/. Cyrchwyd: 26/05/2020.

[xxviii] Neal, Charlie. "Parts of Wales see a rise in the number of children living in poverty and facing a perilous future." Derbyniwyd gan R.Starr. 19/05/2020.

[xxix] "Coronavirus and the economic impacts on the UK: 7 May 2020." Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/coronavirusandtheeconomicimpactsontheuk/18june2020?:uri=businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/coronavirusandtheeconomicimpactsontheuk/latest Cyrchwyd: 14/05/2020

[xxx] "Coronavirus Analysis." Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar-lein: https://obr.uk/coronavirus-analysis/ Cyrchwyd: 02/06/2020.

[xxxi] "Coronavirus Analysis." Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol. Ar-lein: https://obr.uk/coronavirus-analysis/ Cyrchwyd: 02/06/2020.

[xxxii] Rhys, Steffan. "The impact of Brexit on Wales: 14 serious ways the country could lose out if we crash out of European Union." Wales Online. Ar-lein: https://www.walesonline.co.uk/news/politics/impact-brexit-wales-14-serious-15781495. Cyrchwyd: 08/06/2020.

[xxxiii] "Coronavirus and the economic impacts on the UK: 7 May 2020." Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/coronavirusandtheeconomicimpactsontheuk/18june2020?:uri=businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/coronavirusandtheeconomicimpactsontheuk/latest Cyrchwyd: 14/05/2020

[xxxiv] "Ffeithlun sy'n dangos nifer y ceisiadau am grantiau busnes Covid-19." Cyngor Sir Ceredigion. Ar-lein: https://twitter.com/CSCeredigion/status/1265976193527865345 Cyrchwyd: 30/05/2020.

[xxxv] "Baromedr Twristiaeth (Arolwg effaith coronafeirws (COVID-19)): cam 2 2020 (crynodeb)." Llywodraeth Cymru, 9 Mai 2020. Ar-lein: https://llyw.cymru/baromedr-twristiaeth-arolwg-effaith-coronafeirws-covid-19-cam-2-2020-crynodeb-html Cyrchwyd: 12/05/2020.

[xxxvi] "Agricultural Policy Update for FUW Presidential Policy Team." Undeb Amaethwyr Cymru. 29 Ebrill 2020.

[xxxvii] "Agricultural Policy Update for FUW Presidential Policy Team." Undeb Amaethwyr Cymru. 29 Ebrill 2020.

[xxxviii]"Adroddiad Economaidd Sylfaenol." Cyngor Sir Ceredigion, Chwefror 2020. 6.

[xxxix] Cyngor Sir Ceredigion.

[xl] "Coronavirus and the economic impacts on the UK: 7 May 2020." Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/coronavirusandtheeconomicimpactsontheuk/18june2020?:uri=businessindustryandtrade/business/businessservices/bulletins/coronavirusandtheeconomicimpactsontheuk/latest Cyrchwyd: 14/05/2020

[xli] "Business Impact of Coronavirus (COVID-19) Survey questions: 6 April 2020 to 19 April 2020." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/businessimpactofcovid19surveyquestions/6april2020to19april2020?:uri=peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/businessimpactofcovid19surveyquestions/6april2020to19april2020 Cyrchwyd: 14/05/2020.

[xlii] Miller, Rachel. "Sudden and seismic shift" in small business confidence." Startupdonut. Ar-lein: https://www.startupdonut.co.uk/news/sudden-and-seismic-shift-small-business-confidence. Cyrchwyd: 30/05/2020.

[xliii] "Lloyd Bank Business Barometer." Banc Lloyds. Ar-lein: https://www.lloydsbankinggroup.com/globalassets/documents/media/press-releases/lloyds-bank/2020/press-release---business-barometer-april-final2.pdf. Cyrchwyd: 30/05/2020.
[xliv] Miller, Rachel. "Sudden and seismic shift" in small business confidence." Startupdonut. Ar-lein: https://www.startupdonut.co.uk/news/sudden-and-seismic-shift-small-business-confidence. Cyrchwyd: 30/05/2020.
[xlv] "Where next for the Welsh economy?" Sefydliad Bevan. Merthyr Tudful, Mai 2020. 1.
[xlvi] "Where next for the Welsh economy?" Sefydliad Bevan. Merthyr Tudful, Mai 2020. 7.
[xlvii] "Where next for the Welsh economy?" Sefydliad Bevan. Merthyr Tudful, Mai 2020. 3.
[xlviii] "Where next for the Welsh economy?" Sefydliad Bevan. Merthyr Tudful, Mai 2020. 12.
[xlix] Barry, Sion. "What needs to happen to boost the Welsh economy after the Covid-19 pandemic - our panel of experts explore." Business Live. Ar-lein: https://www.business-live.co.uk/economic-development/what-needs-happen-boost-welsh-18158497 Cyrchwyd: 02/06/2020.
[l] Cowan, K. "Survey results: Understanding people's concerns about the mental health impacts of the COVID-19 pandemic." Sefydliad y Gwyddorau Meddygol ac MQ: Trawnsewid iechyd meddwl drwy ymchwil. Llundain, Ebrill 2020. 5-6.
[li] "Coronavirus and the social impacts on Great Britain: 7 May 2020." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/datasets/coronavirusandthesocialimpactsonthecountriesandregionsofgreatbritain Cyrchwyd: 13/05/2020.
[lii] "Sut ydym ni yng Nghymru: Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod y Mesurau Coronafeirws." Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar-lein: https://icc.gig.cymru/pynciau/coronafeirws/sut-wyt-ti/adroddiadau-sut-wyt-ti/adroddiad-wythnos-4-sut-ydym-ni-yng-nghymru/ Cyrchwyd: 12/05/2020
[liii] "Adroddiad Economaidd Sylfaenol." Cyngor Sir Ceredigion, Chwefror 2020. 32.
[liv] Maunder, Stephen. "How will coronavirus affect house prices?" Which? Ar-lein: https://www.which.co.uk/news/2020/05/how-will-the-coronavirus-affect-house-prices/ Cyrchwyd: 26/05/2020.
[lv] "Where next for the Welsh economy?" Sefydliad Bevan. Merthyr Tudful, Mai 2020. 8.
[lvi] "Online shopping surges by 129% across UK and Europe and ushers in new customer expectations of retail." Internet Retailing. Ar-lein: https://internetretailing.net/covid-19/covid-19/online-shopping-surges-by-129-across-uk-and-europe-and-ushers-in-new-customer-expectations-of-etail-21286 Cyrchwyd: 13/05/2020.
[lvii] "Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2018 – Mawrth 2019." Llywodraeth Cymru. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019 Cyrchwyd: 13/05/2020.
[lviii] "Adroddiad Economaidd Sylfaenol." Cyngor Sir Ceredigion, Chwefror 2020. 28-29.
[lix] "Arolwg Cenedlaethol Cymru: Ebrill 2018 – Mawrth 2019." Llywodraeth Cymru. Ar-lein: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019 Cyrchwyd: 13/05/2020.
[lx] "Cynhwysiant digidol yng Nghymru: Safbwyntiau ar pam ei fod o bwys a beth sydd angen ei wneud o hyd." Canolfan Cydweithredol Cymru. Caerffili, 2016. Ar-lein: http://walescoop.wpengine.com/wp-content/uploads/2018/09/wcc-digitalblogbrochure-P3-welsh-1.pdf
[lxi] "Coronavirus (COVID-19) roundup: Deaths involving COVID-19 by ethnic Group." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19roundup/2020-03-26?:uri=peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19roundup/2020-03-26 Cyrchwyd: 12/05/2020.
[lxii] "Coronavirus (COVID-19) roundup." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19roundup/2020-03-26?:uri=peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19roundup/2020-03-26 Cyrchwyd: 14/05/2020
[lxiii] "Population Estimates for the UK, England and Wales, Scotland and Northern Ireland: Mid-2019, using April 2020 local authority district codes." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2019?:uri=peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/annualmidyearpopulationestimates/mid2019 Cyrchwyd: 14/05/2020.
[lxiv] "Coronavirus (COVID-19) roundup." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19roundup/2020-03-26?:uri=peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/conditionsanddiseases/articles/coronaviruscovid19roundup/2020-03-26 Cyrchwyd: 14/05/2020.
[lxv] "A yw Cymru'n decach? Cyflwr cydraddoldeb a hawliau dynol 2018." Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. 2018. 29.
[lxvi] Johnson, Paul. "We may be in this together, but that doesn't mean we are in this equally." Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Ar-lein: https://www.ifs.org.uk/publications/14821. Cyrchwyd: 14/05/202.
[lxvii] "Labour market economic analysis, quarterly: June 2020." Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Ar-lein: https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/labourmarketeconomicanalysisquarterly/june2020?:uri=employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/articles/labourmarketeconomicanalysisquarterly/june2020 Cyrchwyd: 03/06/2020.
[lxviii] "Bevan Foundation response to the Equality, Local Government and Communities Committee's inquiry into COVID-19 and its impact on matters relating to its remit." Sefydliad Bevan. Merthyr Tudful, 2020.
[lxix] "Homeworker Wellbeing Survey: Interim Results 7th April 2020." Y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth. Ar-lein: https://www.employment-studies.co.uk/sites/default/files/resources/summarypdfs/IES%20Homeworker%20Wellbeing%20Survey%20Headlines%20-%20Interim%20Findings.pdf. Cyrchwyd: 31/05/2020.